Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 3

Haf 2026

© WJEC CBAC Ltd. 2026



Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Mapio	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Arholi gyda ni | CBAC

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	5
Uned 1	7
Uned 2	16
Uned 3	25
Uned 4	29
Uned 5	34
Uned 6	38
Uned 7	46
Uned 8	49
Uned 9	52
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	56

© WJEC CBAC Ltd.2026

Crynodeb Gweithredol

Dyma drydedd flwyddyn Lefel 3 y Diploma Estynedig ac ni wnaed unrhyw newidiadau i unrhyw un o'r naw uned eleni. Cyflwynwyd gwaith yr Asesiadau Di-arholiad drwy IAMIS yn unig a doedd dim problemau ar y cyfan er y dylai canolfannau wirio bod ffeiliau wedi'u sipio yn hygyrch i'r cymedrolwyr a bod gwaith yn cael ei gadw mewn nifer llai o ffeiliau lle mae'n bosibl yn y dyfodol.

Cadwodd y rhan fwyaf o'r canolfannau at y dyddiadau cyflwyno newydd, fel y gwelir isod, ac oherwydd hyn roedd modd galw am samplau ychwanegol lle roedd angen. Bydd y dyddiadau hyn yn aros yr un fath am oes y fanyleb. Dylai canolfannau wneud cais am estyniad os nad ydyn nhw'n gallu cyflwyno gwaith ymgeiswyr erbyn y dyddiadau hyn.

Unedau 1, 4, 5 a 8 – 15 Mai
Unedau 3, 6 a 9 – 5 Mehefin

Pob uned Asesiadau Di-arholiad (1, 3, 4, 5, 6, 8 a 9) perfformiodd y myfyrwyr yn unol â'r llynedd ac arhosodd y ffiniau graddau'n sefydlog ar gyfer yr unedau hyn.

Gan fod Deallusrwydd Artiffisial yn fwyfwy cyffredin, bydd gofyn i ymgeiswyr ac aseswyr ddilysu gwaith y flwyddyn nesaf gan ddefnyddio ffurflen datganiad wedi'i diwygio sy'n cynnwys cymal yn ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial. Cyfrifoldeb y ganolfan yw gweinyddu'r broses Asesiadau Di-arholiad yn unol â chanllawiau CGC a CBAC er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith y maen nhw eu hunain wedi'i wneud.

Mae anodiadau ar waith yn dal i fod yn hanfodol er mwyn cymedroli ac mae hyn o gymorth i'r timau cymedroli wrth ddeall sut mae marciau'n cael eu dyfarnu. Yn ogystal, gofynnir i ganolfannau edrych eto ar gyfarwyddyd sy'n ymwneud â chynnwys nodiadau, yn enwedig ar gyfer Uned 1, Tasg 1, a ddylai fod yn un generig a heb fod yn cyfeirio at yr astudiaeth achos, gan na ddylai hon gael ei rhannu â'r ymgeiswyr cyn dechrau'r Asesiad Di-arholiad.

Mae rhai problemau o hyd sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith ar gyfer Uned 6, a chollodd rhai ymgeiswyr farciau oherwydd iddyn nhw gael eu gosod mewn lleoliadau amhriodol. Er ein bod yn cydnabod efallai mai ysgolion yw'r unig opsiwn i rai ymgeiswyr, mae'n hanfodol eu bod yn astudio rolau iechyd a/neu ofal cymdeithasol yn y lleoliad fel nyrsys ysgol, seicolegwyr addysg a gweithwyr cymdeithasol er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uchaf.

Ar gyfer Uned 9, dylai canolfannau roi arweiniad gofalus i'w hymgeiswyr ynghylch y math o fater cyfoes y maen nhw'n ymchwilio iddo er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr fynediad at ddigon o ymchwil eilaidd sydd ar gael i'w hystyried.

Unedau a Asesir yn allanol (2 a 7)

Braf oedd nodi, ar gyfer y ddwy uned yn y gyfres hon, i berfformiad yr arholiadau aros yn sefydlog. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r fanyleb ac roedden nhw'n gallu cymhwyso gwybodaeth at senarios penodol, a hynny'n dangos dealltwriaeth effeithiol. Ar gyfer cwestiynau marciau uwch, roedd gostyngiad amlwg yn y cwestiynau a oedd yn cael eu gadael yn wag wrth i nifer uwch o ymgeiswyr roi cynnig ar bob cwestiwn.

Dylai adnabyddiaeth o'r berfau gorchymyn fod yn ffocws o hyd i ganolfannau drwy ymarfer arholiadau ac annog ymgeiswyr i ystyried amrywiaeth o ddadleuon a'u gwerthuso o ran cryfderau a gwendidau. Dylid canolbwyntio'n benodol ar ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau AA3. Bydd adnoddau fel arweiniad arholiadau, adolygu arholiadau ar-lein ac adborth ar asesiadau'r haf yn cefnogi canolfannau wrth baratoi ymgeiswyr at yr unedau sy'n cael eu harholi'n allanol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar gyfer Uned 2, dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth o'r prif ddamcaniaethwyr a dylen nhw ymarfer cymhwyso damcaniaethau at senarios er mwyn deall sut maen nhw'n rhan o arferion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cwestiynau am ddamcaniaethwyr ar gyfer Uned 2 eleni yn awgrymu bod adran hon y fanyleb yn fwy heriol i rai ymgeiswyr.

Gwelwyd perfformiad da yn Uned 7 y gyfres hon sy'n dangos mwy o hyder a dealltwriaeth gan ymgeiswyr. Eto, dangosodd y cwestiynau oedd â marciau uwch ymatebion mwy datblygedig ac roedd llawer mwy o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y rhain. Yn y dyfodol, dylai canolfannau ganolbwyntio ar annog ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at y systemau nerfol a resbiradol er mwyn ysgrifennu atebion estynedig i'r cwestiynau hyn. Noder bod modd cael mynediad i'r ddwy uned ar-lein yn ogystal ag ar fformat ysgrifenedig.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 1: EGWYDDORION GOFAL

Trosolwg o'r Uned

Mae'r uned yn ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector. Rhoddir astudiaeth achos i ymgeiswyr o ddewis o ddwy astudiaeth, ond ni chaniateir iddynt weld yr astudiaeth achos tan ddechrau'r asesiad. Caniateir i ymgeiswyr ddod â nodiadau dosbarth i mewn; **fodd bynnag, dylai'r nodiadau hyn fod yn rhai cyffredinol, ac nid yw'n bosibl cyfeirio at yr astudiaeth achos gan na fyddan nhw wedi ei gweld cyn yr asesiad.** At hynny, ni all ymgeiswyr ychwanegu at eu nodiadau dosbarth ar ôl iddyn nhw gael eu darparu. Cyflwynwyd rhai nodiadau dosbarth da yn ystod y gyfres hon. Rhaid uwchlwytho'r nodiadau gyda'r gwaith.

Ar gyfer Tasg 1, nid oes hawl gan ymgeiswyr i ddefnyddio'r rhyngrwyd ond maen nhw'n cael dod â hyd at 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth. Ar gyfer Tasg 2, nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Ar gyfer Tasg 1, mae'r ymgeiswyr yn cael 14 awr, tra ar gyfer Tasg 2, mae ganddyn nhw 6 awr i gwblhau eu gwaith.

Mae'r ddwy astudiaeth achos ar gyfer cyfres Gaeaf/Haf 2026 yn seiliedig ar Jawaria ar gyfer Astudiaeth Achos A a Dylan ar gyfer Astudiaeth Achos B.

Mae'n bwysig ar gyfer Tasg 2 fod ymgeiswyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r lleoliadau gwahanol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, gall lleoliadau gynnwys cartrefi unigolion, nid lleoliadau proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Dylai Tasg 2 ganolbwyntio ar y lleoliadau/gweithwyr sy'n berthnasol i'r astudiaeth achos a ddewiswyd.

Asesir amcanion asesu dros bum cwestiwn ar gyfer Tasg 1 a dau gwestiwn ar gyfer Tasg 2 gyda 40% o Uned 1 yn cael ei asesu ar gyfer AA1, 36% ar gyfer AA2 a 26% ar gyfer AA3.

Ar gyfer Uned 1, mae'r cynnwys a asesir yn cynnwys egwyddorion gofal, gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yr heriau y mae gweithwyr yn eu hwynebu, dulliau ac egwyddorion moesegol, a dangos ymddiriedaeth a chyfathrebu cadarnhaol. Ar gyfer Tasg 2, mae'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r lleoliad penodol yn yr astudiaeth achos. Hefyd, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o godau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut maen nhw'n arwain y gweithwyr penodol yn y lleoliad.

Ar y cyfan, roedd perfformiad eleni'n dda. Mae'n ymddangos bod ymgeiswyr a chanolfannau yn fwy cyfarwydd â chysyniadau allweddol a sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Hon oedd y bumed flwyddyn o asesu ar gyfer yr uned hon.

Cafwyd rhai enghreifftiau rhagorol o ddealltwriaeth fanwl o egwyddorion gofal a sut i gymhwyso'r rhain yn ymarferol. Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farc rhesymol i dda yn yr asesiad er bod gwybodaeth rhai ymgeiswyr o gymhwyso egwyddorion gofal mewn cyd-destun yn gyfyngedig.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd amrywiaeth o arddulliau o ddogfennaeth marcio ac asesu wedi'u cyflwyno gan ganolfannau ar gyfer cymedroli.Darparodd rhai canolfannau anodiadau rhagorol ar waith ymgeiswyr oedd yn galluogi cymedrolwyr i weld sut roedden nhw'n cyfiawnhau penderfyniadau asesu. Roedd anodiadau canolfannau eraill yn brin iawn. Darparwyd nodiadau dosbarth gan fwy o ganolfannau ar gyfer y gyfres hon, a oedd yn plesio. Roedd rhai atebion, yn enwedig ar gyfer Tasg 2, yn cynnwys darnau o'r rhyngrwyd; nid yw hyn yn dderbyniol, gan fod y fanyleb yn nodi bod rhaid i'r gwaith fod gan yr ymgeiswyr eu hunain a chyfrifoldeb y goruchwyliwr/aseswr yw gwirio dilysrwydd
y nodiadau dosbarth.

Mae Tudalen 71 yn y fanyleb cymwysterau yn cynnwys nodyn atgoffa defnyddiol:

"Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddir gan ymgeiswyr a'u cyflwyno
i gael eu hadolygu fel rhan o'r broses gymedroli."

Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae ymgeiswyr yn bwriadu mynd â nhw i'r amgylchedd asesu gan sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion uchod. Os oes gan athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau, dylai atal yr asesiad rhag digwydd a dilyn ei weithdrefnau mewnol ei hunan sydd ar waith
i ymdrin ag achosion lle mae amheuaeth o gamymddwyn.

"Rhaid i ymgeiswyr ddeall y bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau wneud y canlynol
rhoi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi ffurflen
y datganiad dilysu."

Wrth gyflwyno gwaith ymgeiswyr i'w gymedroli, byddai rhestr wirio ddefnyddiol isod yn fuddiol a byddai'n cynorthwyo'r broses gymedroli.

Rhestr wirio cymedroli ar gyfer Uned 1:	**Ticio'r rhestr wirio.**
Mae'r daflen farciau wedi'i llenwi'n gyflawn, ac mae'r marciau'n adio'n gywir (dylid gwirio hyn ddwywaith).	
Mae'r gwaith wedi'i labelu â gwybodaeth gywir ynghylch – e.e., rhif yr ymgeisydd/enw'r ymgeisydd ac ychwanegwyd y pennawd a'r troedyn at bob tudalen i gadarnhau hyn.	
Mae cofnodion dilysu mewnol wedi cael eu cyflwyno fel un ffeil i gadarnhau sicrwydd ansawdd ar gyfer Uned 1.	
Mae datganiadau ymgeisydd/aseswr wedi'u llofnodi a'u dyddio. **Ni** ddylai datganiad aseswr fod wedi ei lofnodi na'i ddyddio cyn un yr ymgeisydd.	

© WJEC CBAC Ltd.2026

<table>
<tr><td>Taflen gofnodi wedi'i llenwi gyda'r oriau a gwblhawyd ar gyfer pob Tasg – gall hyn fod yn ddefnyddiol:

<u>Taflen gofnodi – Allwch chi ddim treulio mwy na</u> 20 AWR
Cofnod o'r oriau a dreuliwyd o'r asesiad di-arholiad.
<table><tr><th>Tasg</th><th>Dyddiad ac amser a dreuliwyd.</th></tr><tr><td>1 (A)</td><td></td></tr><tr><td>1 (B)</td><td></td></tr><tr><td>1 (C)</td><td></td></tr><tr><td>1 (CH)</td><td></td></tr><tr><td>1 (D)</td><td></td></tr><tr><td>2 (A)</td><td></td></tr><tr><td>2 (B)</td><td></td></tr><tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 1:</td><td></td></tr><tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 2:</td><td></td></tr></table></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau ar waith yr ymgeisydd ar ôl pob cwestiwn.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae gwaith yr ymgeiswyr wedi'i gyflwyno fel un ffeil ar gyfer Tasg 1 ac un ffeil ar gyfer Tasg 2 neu wedi'i gyfuno'n un ffeil (gan gynnwys dalen asesu flaen gyda marciau a datganiadau). Peidiwch ag anfon cwestiynau unigol mewn ffeiliau ar wahân.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae nodiadau dosbarth wedi'u cynnwys ar ôl y ddalen cofnodi oriau.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae anodiadau'n amlwg ar bob cwestiwn i amlygu a chyfiawnhau i'r ymgeisydd a'r cymedrolwr lle dyfarnwyd marciau.</td><td></td></tr>
</table>

Roedd y marcio ar draws y papurau, ar y cyfan, yn briodol. Roedd graddio'r ymgeiswyr yn briodol ar y cyfan, ac roedd marciau a ddyfarnwyd yn y band priodol ar y cyfan. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi gormod o farciau am gwestiynau penodol, yn enwedig Tasg 1 (b). Er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf ar gyfer Tasg 1 (b), dylai ymgeiswyr esbonio sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd ddangos a hybu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith, a sut mae hyn o fantais i'r unigolyn y maen nhw'n gweithio gydag ef. Mae'n bwysig bod **ymgeiswyr yn esbonio'r disgwyliad yn glir yn hytrach na rhoi enghreifftiau yn unig o'r astudiaeth achos a ddewiswyd.** Bydd hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau marciau uchaf. Mae'n bwysig bod y disgwyliad yn benodol i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Ar gyfer Tasg 1 (d), adfyfyriodd llawer o ymgeiswyr ar sut gallai gofal a chymorth feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn gofyn am adfyfyrio ar sut cafodd y dulliau a'r sgiliau eu defnyddio gan y gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd, gyda rhai'n rhoi disgrifiad cyffredinol o sut gallai unrhyw weithwyr gofal a chymorth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar gyfer Tasg 2, enillwyd marciau uwch trwy gymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer priodol at y lleoliad yn yr astudiaeth achos, ond ni ddefnyddiodd rhai ymgeiswyr y ddeddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol perthnasol a oedd yn ymwneud â'r lleoliadau penodol yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Ar gyfer Tasg 2, mae'n bwysig bod cyfeirio'n aml at y gweithwyr/lleoliadau.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1 (a)

Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y cwestiwn hwn. Braf oedd gweld i lawer o'r ymgeiswyr strwythuro eu hymatebion ar fformat adroddiad, fel y pennwyd ym mriff yr aseiniad. Yn ogystal, rhaid canmol yr ymgeiswyr am drefnu eu hymatebion yn dri pharagraff eglur, gyda phob egwyddor gofal a ddefnyddiwyd yn bennawd wedi'i danlinellu; ystyriwyd hyn yn arfer da.

Fodd bynnag, ni wnaeth rhai ymgeiswyr gynnwys disgrifiad o'r egwyddor gofal benodol a symudon nhw'n syth i roi enghreifftiau. Hefyd, defnyddiodd nifer bach o ymgeiswyr yr un enghreifftiau ar draws egwyddorion gofal gwahanol, er i hyn ddigwydd yn llai aml yn y gyfres hon.

Er y gall egwyddorion gofal fod yn gyfnewidiol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth eang o enghreifftiau gwahanol o'r astudiaeth achos. Byddai hyn yn dangos dealltwriaeth fwy manwl a chadarn o'r astudiaeth achos a ddewiswyd.

Gwnaeth rhai ymgeiswyr a ddewisodd egwyddorion gofal fel cyd-gynhyrchu gymysgu rhwng hyn a gweithio amlasiantaethol neu amlddisgyblaethol. Mae **cydgynhyrchu**'n gosod yr unigolyn a'i deulu yng nghanol gwneud penderfyniadau, gyda gweithwyr proffesiynol yn gweithio wrth eu hochr fel partneriaid cyfartal, tra mae **gweithio amlasiantaethol** yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol a gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r unigolyn, ond nid o angenrheidrwydd yn cynnwys yr unigolyn fel rhywun cyfartal sy'n gwneud penderfyniadau.

Roedd yn braf gweld mwy o ymgeiswyr yn amlinellu'n llawn sut roedd y tair egwyddor gofal gwahanol yn sail i ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn benodol; ystyriwyd hyn yn arfer da.

Tasg 1 (b)

Roedd yn braf gweld bod y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu nodi ffyrdd y mae disgwyl i weithwyr gofal a chymorth ddangos **gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebion yn cynnwys **manylder ac esboniad**, sef ffocws y gair gorchymyn a oedd yn cael ei asesu.

Dechreuodd rhai ymgeiswyr eu hymateb gyda **diffiniad o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**, a oedd yn ffordd effeithiol o ddechrau'r ateb gan ddangos cysylltiad uniongyrchol ag 1.5 yn y fanyleb. Roedd hyn yn plesio'n fawr.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn nodi'n eglur bod gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n ymwneud â **chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, a'i fod yn golygu** "*cynorthwyo unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol drwy ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno, pryd a ble mae eu hangen arno, mewn modd fforddiadwy, diogel ac effeithiol*."

© WJEC CBAC Ltd.2026

Hefyd, drwy esbonio'n eglur beth yw **canlyniadau personol** a nodi'r canlyniadau penodol yr hoffai'r unigolion eu cyflawni, gall ymgeiswyr wedyn ganolbwyntio eu hymateb ar y canlyniadau hyn. Er enghraifft, gallai ymgeiswyr esbonio sut byddai'r ffyrdd penodol y mae gofal yn cael ei rhoi yn helpu'r unigolyn i gyflawni ei nodau personol.

I egluro:

Canlyniadau personol Jawaria – ei nod yn y pen draw oedd cael bywyd diogel, gyda chefnogaeth ac urddas, gyda chyfranogi cymdeithasol gweithgar, a chynnal ei hannibyniaeth cymaint â phosibl ar yr un pryd.

Canlyniadau personol Bryn – ei ganlyniad oedd cael profiad diwedd oes cysurus, diogel, ac urddasol a chynnal cymaint â phosibl o normalrwydd, boddhad a chysylltiad â'i deulu ar yr un pryd.

I ennill marciau uwch, roedd angen i'r ymgeiswyr esbonio disgwyliadau'r gweithwyr gofal a chymorth, sut roedden nhw'n dangos y rhain, beth arall y gallen nhw fod wedi'i wneud, a'r manteision i'r unigolyn o ran bodloni ei ganlyniadau personol.

Llwyddodd rhai ymgeiswyr i gysylltu eu hymatebion â **deddfwriaeth allweddol**, megis pum egwyddor allweddol **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, roedd hyn yn creu argraff arbennig a dylid ei annog ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, ni wnaeth pob ymgeisydd ganolbwyntio ar y **gweithwyr penodol** o'r astudiaeth achos, a oedd yn ofyniad pwysig i'r cwestiwn hwn. Mewn rhai achosion, roedd y disgrifiad o'r manteision i'r unigolyn yn rhy fyr. Byddai wedi cryfhau'r ymatebion hyn petai'r ymgeiswyr wedi nodi'n eglur sut byddai'r camau gweithredu penodol a wnaeth y gweithwyr yn cefnogi'r unigolion o ran cyflawni eu canlyniadau personol.

Dull a Argymhellir i Ymgeiswyr

Un ffordd ddefnyddiol ac effeithiol o ateb y cwestiwn hwn yw:

- **Dechrau gydag esboniad o 'gofal o ansawdd da'**, diffinio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i osod y cefndir
- Yna strwythuro'r ymateb yn **4–5 adran glir**, a phob un yn canolbwyntio ar:
  - Ffordd mae disgwyl i weithwyr ddangos gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (e.e., dull gweithredu seiliedig ar gryfderau)
  - Sut roedd hyn i'w weld yn yr astudiaeth achos
  - Beth arall y gellid bod wedi'i wneud
  - Y fantais i'r unigolyn o ran ei ganlyniadau personol a'i sefyllfa.

Os bydd ymgeiswyr yn cadw at y strwythur hwn yn gyson drwy eu hymateb i gyd, maen nhw'n fwy tebygol o fodloni'r **ymateb manwl a thrylwyr sy'n ofynnol ar gyfer Band 4**.

Er enghraifft, byddai'r paragraff canlynol yn esiampl o enghraifft fanwl a thrylwyr.

<u>Diogelu unigolion</u>

"Mae diogelu'n un ffordd mae disgwyl i weithwyr ddangos gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Ystyr diogelu yw amddiffyn unigolion rhag niwed a chamdriniaeth, ac mae gan weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod camau gweithredu yn digwydd er llesiant unigolyn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Yn yr astudiaeth achos, dangosodd y gweithwyr ddiogelu drwy alluogi merch Jawaria i godi pryderon am y gofal roedd ei mam yn ei gael. Cafodd merch Jawaria y cyfle i leisio ei phryderon yn rheolaidd ynghylch bod ei mam yn llithro'n aml, rhywbeth a ddigwyddai oherwydd nad oedd Jawaria yn cael ei hatgoffa i ddefnyddio ei ffrâm gerdded bob amser. Drwy wrando ar y pryderon hyn, dangosodd y gweithwyr eu bod o ddifrif am ddiogelwch a llesiant Jawaria.

Fodd bynnag, gallai mwy fod wedi'i wneud i wella diogelu. Dylai pob aelod o staff oedd yn gweithio gyda Jawaria fod wedi cael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r perygl iddi syrthio a'i bod hi'n bwysig i'w hannog i ddefnyddio ei ffrâm gerdded bob amser. Dylai'r gofyniad hwn fod wedi cael ei ddogfennu'n eglur yn ei chynllun gofal personol, gan sicrhau cysondeb yn y gofal a lleihau'r perygl o ragor o ddigwyddiadau.

Mae diogelu Jawaria yn cefnogi gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Petai Jawaria yn cael ei diogelu'n effeithiol, byddai hi'n llai tebygol o ddioddef anafiadau, profi poen, neu fod angen triniaeth feddygol. Byddai hyn yn ei helpu i gynnal ei hannibyniaeth a'i galluogi i barhau i fynychu'r Mosg, sy'n bwysig i'w llesiant personol, diwylliannol, ac ysbrydol."

Tasg 1(c)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn eithaf da; braf oedd gweld mwy o ymgeiswyr yn rhoi sylw i anghenion y cwestiwn megis yr **her roedd y gweithwyr yn ei hwynebu**. Doedd rhai ymgeiswyr ddim bod amser yn eglur pam roedd hyn yn her roedd y gweithwyr yn ei hwynebu a chanolbwyntion nhw ar heriau'r unigolion oedd yn cael eu cefnogi.

Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i nodi **dwy her**, a oedd yn briodol i'r cwestiwn. Roedd ymatebion a enillodd farciau uwch yn nodi'r her yn glir ar ddechrau eu hymateb ac yna'n esbonio pam byddai hyn yn her i'r gweithiwr.

Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu ehangu ar ôl nodi'r her.

Wrth farcio'r cwestiwn hwn, dylai aseswyr nodi'n glir faint o farciau sydd wedi'u rhoi ar gyfer pob her ar wahân, ac yna ddyfarnu marc terfynol cyffredinol. Braf oedd gweld bod mwyafrif y canolfannau'n cadw at y dull hwn.

Hefyd, roedd yn galonogol gweld mwy o ymgeiswyr yn defnyddio **terminoleg arbenigol** yn y gyfres hon wrth ddisgrifio ffyrdd y byddai'r gweithwyr yn gallu goresgyn heriau. Fodd bynnag, roedd rhai o'r awgrymiadau'n rhy gyffredinol neu'n afrealistig, fel "dylai'r gweithiwr gyflogi mwy o staff gofal cymdeithasol" neu "dylai'r llywodraeth roi mwy o gyllid i nyrsys". Nid yw'r rhain yn ddatrysiadau ymarferol na realistig ar lefel gweithiwr gofal unigol. Dylai'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar strategaethau realistig a phriodol y byddai'r gweithiwr penodol yn yr astudiaeth achos yn gallu eu rhoi ar waith.

Tasg 1 (ch)

Roedd hwn yn un o'r atebion gwannaf, fel y gyfres ddiwethaf, ond mae'r atebion yn gwella. Disgwylir i ymgeiswyr ddadansoddi tair egwyddor cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis a dulliau gweithredu eraill yng nghyd-destun yr astudiaeth achos. Y gair gorchymyn oedd **'dadansoddwch'**, sef archwilio mater yn fanwl. Cymysgodd rhai ymgeiswyr y tri therm hyn mewn un paragraff felly doedden nhw ddim yn gallu trafod yr egwyddorion yn fanwl iawn; mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwahanu'r tri therm yn baragraffau ar wahân. Gwnaeth rhai ymgeiswyr hepgor rhai o'r egwyddorion, a olygai na allent gyrraedd y bandiau uchaf. Hefyd, disgwylir i ymgeiswyr ddadansoddi dulliau gweithredu moesegol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Lle y soniodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr am rai o'r dulliau gweithredu, roedd hyn yn gul o ran cwmpas ar y cyfan.

Un ffordd ddefnyddiol o wahaniaethu rhwng yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu moesegol yw:

Egwyddorion moesegol	**Dulliau moesegol**
Cydraddoldeb	Dyletswydd gofal
Amrywiaeth	Dyletswydd gonestrwydd
Dewis	Penderfyniadau er budd gorau
	Rheoli cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth – e.e., dilyn GDPR a WASPI
	Cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol
	Dilyn fframweithiau moesegol
	Rheoli'r ffordd y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu dyrannu (drwy egwyddorion gofal iechyd darbodus)

Wrth ddadansoddi'r egwyddorion a'r dulliau, un ffordd ddefnyddiol o sicrhau dadansoddiad manwl yw bod ymgeiswyr yn disgrifio'r hyn a olygir gan yr egwyddor neu'r dull, yn trafod sut cafodd hyn ei gymhwyso yn yr astudiaeth achos dan sylw, ac yn archwilio sut gellid ei gymhwyso. Hefyd, dylai ymgeiswyr ddod i farn ynghylch sut mae'n effeithio ar ofal person-ganolog, mewn ffyrdd cadarnhaol **a** negyddol.

Tasg 1 (d)

Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn eithaf da. Fodd bynnag, dyfarnwyd marciau uwch i ymgeiswyr a oedd yn **myfyrio ar wahân ar gyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol/ymddiriedaeth**. Roedd adroddiadau a oedd yn trafod y rhain gyda'i gilydd yn tueddu i golli ffocws a chyfeiriad ac felly dyfarnwyd marciau is iddynt.

Adfyfyriodd ymatebion yn y bandiau uchaf yn benodol ar y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y gweithwyr fel y dangoswyd yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. I gyferbynnu, roedd yr atebion yn y bandiau is yn tueddu i amlinellu sut byddai'n bosibl dangos cyfathrebu a pherthnasoedd cadarnhaol ond methon nhw drafod y sgiliau penodol a ddefnyddiwyd gan weithwyr neu sut roedd y sgiliau hyn yn cael eu cymhwyso'n ymarferol.

Camddarllenodd rhai atebion yn y bandiau isaf y cwestiwn a rhoddon nhw ddisgrifiadau cyffredinol o beth yw ystyr perthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol. Er bod hyn yn llai cyffredin yn y gyfres hon, roedd ymgeiswyr na wnaethon nhw fyfyrio ar sut roedd y dulliau a'r sgiliau'n cael eu defnyddio gan y gweithwyr gofal a chymorth yn methu bodloni'r gofynion ar gyfer **Band 2**, yn enwedig mewn perthynas â dangos *rhai casgliadau* a *rhywfaint o werthuso* yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Braf oedd gweld rhai ymgeiswyr yn defnyddio **amrywiaeth o gysyniadau allweddol**, fel *gwrando gweithredol, cyfathrebu geiriol a di-eiriau*, ymgyrch *Helô, fy enw i yw*, dulliau gweithredu *person-ganolog* a *phlentyn-ganolog*, a *dyletswydd gonestrwydd*. Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn gallu defnyddio'r termau hyn yn effeithiol wrth fyfyrio yn fwy tebygol o gyrraedd y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Tasg 2 (a)

Roedd hi'n braf gweld, ar gyfer y cwestiwn hwn, fod yr ymgeiswyr yn dechrau eu hateb drwy gyflwyno'n eglur y lleoliad lle roedd yr unigolyn yn cael gofal neu gymorth. Roedd hon yn agwedd allweddol ar y cwestiwn, gan fod angen i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar sut roedd ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn cael eu cymhwyso yn y lleoliad hwnnw.

Llwyddodd mwy o ymgeiswyr i ddiffinio beth yw ystyr deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol. Roedd hi'n arbennig o braf gweld i leiafrif o'r ymgeiswyr esbonio'n eglur i'r gweithwyr newydd fod deddfwriaeth yng Nghymru yn fater datganoledig – roedd hyn yn creu argraff! Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r fanyleb, lle dylai dysgwyr wybod a deall effaith deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys materion datganoledig a deddfwriaeth eilaidd.

Byddai'n galondid gweld y dull hwn yn parhau mewn cyfresi yn y dyfodol, gan ei fod yn gosod y cyd-destun i'r cwestiwn ac yn dangos i weithwyr newydd fod gan Gymru ddeddfwriaeth benodol yn gysylltiedig â hi.

Yn ystod y gyfres hon, canolbwyntio llai o ymgeiswyr ar ddeddfwriaeth yn unig, gyda mwy yn ystyried polisïau cenedlaethol hefyd. Roedd yr ymgeiswyr a ganolbwyntiodd ar ddeddfwriaeth yn methu cyrraedd y bandiau marciau uwch.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gallu esbonio eu pwyntiau'n eglur; mae hyn yn golygu enwi'r ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol y maen nhw'n cyfeirio ati/ato, esbonio'n fyr pam y'i cyflwynwyd, diffinio termau allweddol o'r ddeddfwriaeth neu'r polisïau cenedlaethol, a chymhwyso'r rhain at y lleoliad o dan sylw. Dylid gorffen drwy sôn am sut mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau'n cefnogi gofal person-ganolog. Drwy wneud hyn, byddai gweithwyr newydd yn ennill gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae cymhwyso'n rhan allweddol o'r cwestiwn hwn, gan ei fod yn gwestiwn AA2.

Maes cyffredin lle gallai ymgeiswyr fod wedi mynd ymhellach oedd archwilio egwyddorion allweddol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Cydraddoldeb 2010*. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiad byr o'r rhain yn unig, heb gymhwyso cysyniadau allweddol at y lleoliad fel cydgynhyrchu, llais, dewis a rheolaeth, addasiadau rhesymol, nodweddion gwarchodedig, a sut mae mynd i'r afael â gwahaniaethu'n cefnogi gofal person-ganolog.

Rhai polisïau cenedlaethol newydd NEU bolisïau eraill yng Nghymru a allai gael eu hystyried i'r dyfodol yw:

Gweithio i Wella – sydd bellach yn cael ei ystyried fel Gwrando ar Bobl, a ddaeth i rym o **1 Ebrill 2026** ar gyfer pryderon newydd. Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar ddatrys cynnar, cyfathrebu gwell, gwrando, trafodaethau â chleifion, cymorth eiriolaeth a phroses gwynion fwy claf-ganolog.

Cynllun 2024 ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, diweddariad o strategaeth Cymru lachach sy'n canolbwyntio ar ofal person-ganolog, safoni llwybrau clinigol, ehangu cofnodion gofal electronig digidol, cefnogi gweithlu amlbroffesiwn, a chryfhau ymchwil ac arloesi meddygol.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (sydd bellach yn cael ei alw fel arfer yn **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** sy'n sicrhau bod plant ac oedolion yng Nghymru sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeuluso yn cael eu diogelu.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Tasg 2 (b)

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu sgorio o leiaf hanner y marciau ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig ar gyfer y cwestiwn hwn fod ymgeiswyr yn *crynhoi*; does dim angen i hyn fod yn hynod o fanwl ond dylai roi sylw i amrywiaeth eang o bwyntiau er mwyn cyrraedd Band 4, sef y band marciau uchaf.

Roedd yn galonogol hefyd gweld ymgeiswyr ar y lefel uwch yn defnyddio amrywiaeth eang o gysyniadau i ddangos sut mae'r codau'n arwain gweithwyr gofal, gan gynnwys termau fel *atebolrwydd, moeseg, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), cofrestru,* a *chydymffurfio.*

Yn aml, doedd ymgeiswyr a gafodd farciau is ddim yn nodi'r codau ymarfer proffesiynol neu ymddygiad penodol sy'n arwain gweithwyr gofal yn yr astudiaethau achos o dan sylw. Roedd hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth; fodd bynnag, roedd hyn yn llai cyffredin yn y gyfres hon.

Mae'n bwysig nodi, **er mwyn cyrraedd Band 3** a dangos gwybodaeth gadarn, fod rhaid cyfeirio'n benodol at o leiaf un cod ymddygiad neu ymarfer proffesiynol wedi'i enwi'n gywir sy'n berthnasol i'r gweithiwr penodol yn yr astudiaeth achos, ynghyd ag esbonio sut arweiniodd y cod hwn y gweithiwr hwnnw.

Mae'n bwysig rhoi'r dasg yn ei chyd-destun: y nod yw darparu gwybodaeth i staff sy'n gweithio yng Nghymru am y tro cyntaf. Felly, mae'n hollbwysig bod aelodau staff newydd yn gwybod union enwau'r codau ymarfer proffesiynol neu ymddygiad sy'n berthnasol i'r gweithwyr gofal yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr a enwodd ac amlinellu codau perthnasol ymarfer/ymddygiad proffesiynol, gofynion cofrestru'r gweithwyr gofal, a sut cafodd y rhain eu defnyddio'n ymarferol i'w harwain nhw. Braf oedd gweld i rai ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r cyrff rheoleiddio sy'n pennu'r gofynion cofrestru ar gyfer y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol.

Nododd rhai ymgeiswyr enwau'r codau a oedd yn berthnasol i'r lleoliad ond wnaethon nhw ddim amlinellu sut roedd y rhain yn arwain y gweithwyr. O ganlyniad, roedden nhw'n methu cyrraedd Band 2, gan nad oedd ganddyn nhw wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal a oedd yn gweithio yn y lleoliad o dan sylw yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Mae'n bwysig nodi ei bod hi'n bosibl rhoi marciau i ymgeiswyr am esbonio *ystyr* cod ymddygiad neu arferion proffesiynol. Fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr a roddodd ddiffiniad yn unig wedi'u cyfyngu i ateb Band 1.

Braf oedd gweld rhai ymgeiswyr yn dweud yn eglur pwy sy'n gosod y codau ymddygiad/arferion proffesiynol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fanyleb: dylai dysgwyr wybod a deall sut mae **cyrff rheoleiddiol yn nodi'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol**. Roedd yr ymgeiswyr a ehangodd ar hyn yn gallu trafod gofynion rheoleiddio e.e., er mwyn parhau i ymarfer a chynnal eu cofrestriad, bod rhaid i weithwyr wneud DPP.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD DYNOL AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES

Trosolwg o'r Uned

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu drwy arholiad (naill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes. Argymhellir bod addysgu am ddamcaniaethwyr a'u cysyniadau'n digwydd wrth ochr agweddau gwahanol ar ddatblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes. Dylai ymgeiswyr gael eu hannog i gymharu a chyferbynnu dulliau drwy werthuso damcaniaethau'n feirniadol. Dylai ymgeiswyr ddod yn ymwybodol o'r geiriau gorchymyn i gefnogi ymarfer arholiad fel bod ymatebion yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae'n bosibl gweld y geiriau gorchymyn ar:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/igcgp-geiriau-gorchymyn/
Gall ymgeiswyr sefyll yr arholiad hwn yng Nghyfres y Gaeaf a/neu'r Haf.

Uned 2.1: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes.

Cafodd amrywiaeth o destunau eu cwmpasu yn yr adran hon. Roedd un cwestiwn yn canolbwyntio ar statws economaidd ac yn gofyn i'r ymgeiswyr werthuso effaith newid mewn statws economaidd, fel dyrchafiad swydd, ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol. Cafodd rhai ymgeiswyr anhawster gyda'r gwerthuso, oherwydd iddyn nhw ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol y newid yn unig, heb ystyried neu bwyso a mesur yr effeithiau negyddol posibl.

Archwiliodd cwestiynau eraill sut mae crefydd yn gallu dylanwadu ar ddatblygiad hirdymor pobl ifanc. Hefyd, roedd cwestiynau'n ymwneud â cherrig milltir datblygiad allweddol y gallai plentyn 22 mis oed fod yn methu eu cyrraedd a sut byddai'n bosibl delio â'r pryderon hyn. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cerrig milltir datblygiad disgwyliedig drwy gydol y rhychwant oes.

Uned 2.2: Modelau sy'n Gysylltiedig â Ffactorau sy'n Effeithio ar Dwf a Datblygiad
Roedd y modelau allweddol a aseswyd yn yr uned hon yn cynnwys Piaget, Rogers, Cumming a Henry a natur v magwraeth. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â phob damcaniaeth, gan fod rhai ymgeiswyr yn methu datblygu eu syniadau heb unrhyw ymwybyddiaeth o gysyniadau allweddol.

Uned 2.3: Dulliau o Hybu ac Amddiffyn Gwydnwch Roedd y prif gwestiwn yn yr adran hon yn gofyn i ymgeiswyr esbonio dulliau a allai hybu a diogelu gwydnwch Doug, a oedd wedi torri ei goes mewn damwain bêl-droed yn ddiweddar. Roedd hi'n galondid gweld bod llawer o ymgeiswyr yn ymwybodol o amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn meithrin gwydnwch. Fodd bynnag, prin y soniodd rhai ymgeiswyr am amgylchiadau penodol Doug a wnaethon nhw ddim esbonio'n llawn sut roedd y dull gweithredu a nodwyd yn ei gefnogi wrth ymdopi â'i anaf a'i effaith ar ei fywyd bob dydd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Yn y dyfodol, efallai y byddai ymgeiswyr yn dymuno ystyried amrywiaeth ehangach o ddulliau gweithredu ynghyd â'r rhai a nodwyd yn y fanyleb. Er enghraifft, byddai'n bosibl trafod therapi cyffuriau lle bo'n briodol, fel rheoli poen effeithiol a all gefnogi adferiad corfforol, lleihau anghysur, a helpu i gynnal llesiant emosiynol yn ystod y broses adsefydlu. Fel gyda phob dull gweithredu, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cysylltu eu hesboniad yn eglur ag amgylchiadau'r unigolyn.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1(a)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn effeithiol iawn gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cael y marc drwy nodi'n gywir fod Ann mewn oedolaeth.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn nodi'r cam bywyd cywir. Nododd rhai ymgeiswyr oedolaeth ddiweddarach, a oedd yn anghywir.

Cw.1(b)

Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda, ac roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu rhoi dau brofiad bywyd cadarnhaol a fyddai'n gallu digwydd i Ann yn ystod cyfnod nesaf ei bywyd. Yn aml rhoddodd ymgeiswyr enghreifftiau penodol, fel teithio, mynd ar wyliau, ehangu ei theulu, neu brynu cartref newydd.

Ailadroddodd nifer bach o ymgeiswyr wybodaeth o fôn y cwestiwn, fel cael swydd neu ddyrchafiad. Fodd bynnag, roedd gofyn i'r ymgeiswyr nodi dau brofiad bywyd cadarnhaol *arall*.

Gwnaeth rhai ymgeiswyr awgrymiadau afrealistig, fel dod yn fam-gu/nain. Er bod hyn yn bosibl, fyddai hyn ddim i'w ddisgwyl fel arfer i fenyw 36 oed ymhen ychydig flynyddoedd nesaf ei bywyd.

Camddarllenodd nifer o ymgeiswyr y cwestiwn ac yn hytrach, rhoddon nhw effeithiau cadarnhaol profiadau bywyd, fel hunan-barch gwell neu iechyd corfforol gwell. Chafodd yr atebion hyn ddim marciau, gan nad oedden nhw'n rhoi sylw i'r cwestiwn a oedd yn cael ei ofyn.

Cw.1(c)

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu dweud bod statws economaidd yn ymwneud â sefyllfa ariannol unigolyn neu faint o arian sydd ganddo/ganddi.

Roedd rhai ymgeiswyr yn methu ehangu ar eu hamlinelliad a wnaethon nhw ddim esbonio sut gall statws economaidd unigolyn newid neu'r effaith y gall statws economaidd ei chael ar eu bywyd. Byddai'n bosibl dyfarnu marc ychwanegol am ehangu'n fyr ond yn berthnasol ar y cysyniad, er enghraifft:

- Effaith statws economaidd, fel gallu fforddio nwyddau a gwasanaethau neu gael mynediad at ofal iechyd preifat.
- Statws economaidd yn cael ei bennu gan ffactorau fel cyflogaeth, incwm, cyfoeth wedi'i etifeddu, neu fudd-daliadau.
- Sut mae statws economaidd yn effeithio ar unigolion ar gamau bywyd gwahanol, er enghraifft, grantiau Lwfans Cynhaliaeth Addysg i bobl ifanc neu bensiynau i oedolion hŷn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cw.1(ch)

Roedd y cwestiwn hwn yn asesu sgiliau gwerthuso AA3 yr ymgeiswyr. Fel y gwelwyd mewn cyfresi blaenorol, roedd rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd gwerthuso eu hymatebion yn llawn drwy bwyso a mesur yr effeithiau cadarnhaol a'r rhai negyddol hefyd.

Roedd gofyn i'r ymgeiswyr werthuso effaith profiad Ann yn y gwaith, yn benodol ei dyrchafiad, ar ei datblygiad corfforol ac emosiynol. Rhoddodd yr ymatebion cryfach ystyriaeth i'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol a dod i farn gytbwys.

Canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr bron yn llwyr ar yr agweddau cadarnhaol ar y dyrchafiad heb ystyried unrhyw effeithiau negyddol posibl. Canolbwyntiodd eraill ar rôl Ann fel athrawes ymarfer corff yn hytrach na gwerthuso effaith y dyrchafiad ei hun. Cyfyngodd hyn ar effeithiolrwydd eu hymateb.

Cw.2(a)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn gyda llawer o ymgeiswyr yn cael marciau llawn ac yn gallu nodi dwy grefydd y gall Harrison, y therapydd lleferydd ac iaith, ddod ar eu traws.

Cw.2(b)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn wael gyda llawer o ymgeiswyr heb fod yn ymwybodol o ddamcaniaeth Piaget. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu sgorio rhai marciau gyda rhywfaint o wybodaeth o awgrym Piaget bod babanod a phlant yn mynd drwy bedwar cam. Methodd ymgeiswyr gymhwyso at y cerrig milltir deallusol y gall Ojar fod yn gweithio tuag atyn nhw, h.y. bod Ojar ar ddiwedd y camau ffurfiannol diriaethol ac yn mynd i mewn i'r cam gweithredu ffurfiol. Doedd gan ymgeiswyr ddim gwybodaeth am beth byddai hyn yn ei olygu i Ojar. Lle sgoriodd ymgeiswyr farciau uwch, roedden nhw'n gallu egluro ei bod hi'n bosibl bod Ojar yn meddwl yn haniaethol erbyn hyn, a dyma lle mae Ojar yn cynyddu ei allu i weithio pethau allan yn feddyliol gan ddefnyddio ei gof a'i ddychymyg yn hytrach na gorfod gweld popeth ar waith.

Cw.2(c)

Roedd llawer o ymgeiswyr yn methu sgorio marciau llawn am y cwestiwn hwn gan fod ymgeiswyr yn methu disgrifio eu pwyntiau'n fanwl. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu dweud mai un o gryfderau damcaniaeth Piaget yw ei fod yn ystyried ystod o gamau ond wedyn wnaethon nhw ddim disgrifio pam roedd hyn yn gryfder, er enghraifft, mae hyn yn help i ddeall pam mae meddwl plant yn datblygu mewn camau penodol ac yn llywio ymarfer o ran gweithgareddau penodol i oedrannau gwahanol.

Cw.2(ch)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi un ffordd arall o gefnogi datblygiad deallusol Ojar. Y cyfan wnaeth nifer bach iawn o ymgeiswyr oedd ailadrodd cymorth lleferydd ac iaith. Y prif reswm pam na chafodd ymgeiswyr y marciau uchaf oedd na wnaethon nhw ddilyn y gair gorchymyn AA2 *esboniwch*. Wnaeth llawer o ymgeiswyr ddim esbonio'r dull a ddewiswyd yn llawn.

Er enghraifft, awgrymodd llawer o ymgeiswyr y gallai Ojar gael cymorth oddi wrth diwtor preifat, a oedd yn bwynt dilys. Fodd bynnag, wnaethon nhw ddim esbonio sut byddai'r tiwtor preifat yn cefnogi Ojar neu sut byddai'r gefnogaeth hon yn cyfrannu at ei ddatblygiad deallusol.


© WJEC CBAC Ltd.2026

Y cyfan wnaeth rhai ymgeiswyr oedd ailadrodd y cwestiwn gan ddweud y byddai'r dull yn cefnogi datblygiad deallusol heb esbonio sut byddai'n gwneud hynny.

Canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar gefnogi datblygiad cymdeithasol yn hytrach na datblygiad deallusol.

Mae'r **enghraifft ganlynol yn dangos lle enillodd ymgeiswyr 2 farc**, gan iddyn nhw nodi ffordd o gefnogi lleferydd ac iaith Ojar ac esbonio sut byddai'n cael ei roi ar waith, ond methon nhw esbonio pam byddai hyn yn helpu datblygiad deallusol Ojar.

Er mwyn i'r ymgeisydd gyrraedd 3 marc, gallai fod wedi esbonio'n fyr sut byddai'r gefnogaeth hon yn cyfrannu at ddatblygiad deallusol Ojar.


(d) Apart from attending speech and language therapy, explain **one** way that Ojar's intellectual development could be supported. [3]

To support Ojar's interllectual development his family/careers should allow Ojar to do things for himself. for example pay for things at the till of a shop.

I gyrraedd 3 marc, roedd angen i'r ymgeisydd esbonio sut byddai hyn yn cefnogi datblygiad deallusol Ojar. Er enghraifft, byddai talu am eitemau mewn siop yn helpu Ojar i ddatblygu sgiliau rhifedd drwy adnabod arian, cyfrifo costau a deall newid, a fyddai'n gwella ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth.

Er mwyn ymarfer adolygu cwestiynau 'Esboniwch' AA2, gallai athrawon ac aseswyr annog ymgeiswyr i ddefnyddio strwythur **PTEC** (Pwyntio, Tystiolaeth/Enghraifft, Esbonio, Cysylltu) Y cyswllt terfynol yn ôl â'r maes datblygiad a nodwyd yn y cwestiwn (yn yr achos hwn) yw'r hyn sy'n aml yn ennill y marc terfynol. Yn seiliedig ar yr ymatebion gan ymgeiswyr a welwyd, gall y strwythur PTEC helpu'r ymgeiswyr i roi'r lefel o esboniad sydd ei hangen i gyrraedd y marciau llawn.

Cw.2(d)

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu ennill marciau am y cwestiwn hwn drwy ddisgrifio manteision tymor hir posibl bod yn rhan o grefydd wrth i Ojar symud tuag at lencyndod. Roedd yr ymgeiswyr a sgoriodd farciau uwch yn gallu trafod amrywiaeth o fanteision tymor hir posibl a llwyddon nhw i gynnal canolbwynt eglur ar grefydd a llencyndod drwy gydol eu hymatebion.

Er enghraifft, esboniodd rhai ymatebion a gymhwyswyd yn dda sut gall crefydd helpu Ojar yn ystod ei lencyndod drwy ei annog i beidio â chymryd rhan mewn ymddygiad cymryd risgiau sy'n gysylltiedig â'r cam bywyd hwn, fel ysmygu neu yfed o dan oedran. Roedd ymgeiswyr yn adnabod bod llawer o grefyddau'n gwahardd y mathau hyn o ymddygiad neu'n annog pobl i beidio ag ymddwyn fel hyn, fel bod Ojar yn llai tebygol o ymgysylltu â nhw. Gallai hyn leihau'r risg o gyflyrau iechyd tymor hir, fel clefyd yr iau, a chefnogi datblygiad corfforol cadarnhaol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Enghraifft gref arall oedd y rôl y gall crefydd ei chwarae wrth gefnogi llesiant emosiynol yn ystod llencyndod a'r glasoed. Wrth i Ojar brofi newidiadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol arwyddocaol, gall bod yn rhan o gymuned grefyddol roi ymdeimlad o berthyn, arweiniad a chefnogaeth. Gall hyn ei helpu i ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol, gwella ei hunan-barch, a meithrin gwydnwch wrth wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â llencyndod. Byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o roi esboniadau mwy datblygedig o sut gallai credoau ac arferion crefyddol gael effaith tymor hir ar Ojar.

Cw.3(a)

Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn ar draws y gyfres, gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi 2 beth cyffredin sy'n achosi damweiniau heblaw am ddamweiniau chwaraeon yn ystod oedolaeth.

Byddai ambell ymgeisydd yn rhoi'r canlynol:

1. Esgyrn gwan
2. Amser ymateb araf/isel

Dydy'r ymatebion hyn ddim yn nodi pethau sy'n achosi damweiniau. Yn hytrach, maen nhw'n nodi ffactorau a all gynyddu'r risg o ddamweiniau neu anafiadau, yn enwedig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. Gan nad oedd yr ymgeisydd yn nodi pethau cyffredin sy'n achosi damweiniau mewn oedolaeth, ni fyddai'r naill ateb na'r llall yn ennill marciau a byddai'r ymgeisydd yn cael 0 marc.

Roedd y pethau cyffredin sy'n achosi damweiniau mewn oedolaeth, heblaw am ddamweiniau chwaraeon, a gafodd 1 marc yn cynnwys:

- Damweiniau traffig y ffyrdd
- Llithro, baglu a disgyn
- Damweiniau yn y gweithle
- Damweiniau yn y cartref
- Damweiniau'n gysylltiedig ag alcohol

Cw.3(b)

Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn dda, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn ennill marciau llawn ac yn amlinellu'n gywir un rheswm posibl dros newid posibl yn ymddygiad Doug ers y ddamwain. Nododd llawer o ymgeiswyr mai'r achos oedd bod Doug yn methu chwarae pêl-droed bellach, a arweiniodd at ynysigrwydd cymdeithasol ac encilio, gan fod pêl-droed wedi bod yn rhan arwyddocaol o'i fywyd a'i hunaniaeth gymdeithasol.

Cw.3(c)

Roedd cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio dulliau a allai hybu a diogelu gwydnwch Doug, a oedd wedi torri ei goes mewn damwain bêl-droed yn ddiweddar. Roedd hi'n galondid gweld bod llawer o ymgeiswyr yn ymwybodol o amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn meithrin gwydnwch. Fodd bynnag, prin y soniodd rhai ymgeiswyr am amgylchiadau penodol Doug a wnaethon nhw ddim esbonio'n llawn sut roedd y dull gweithredu a nodon nhw yn ei gefnogi wrth ymdopi â'i anaf a'i effaith ar ei fywyd bob dydd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cw.3(ch)

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi cryfderau a gwendidau Damcaniaeth Ddyneiddiol Rogers o ran darparu gofal a chymorth effeithiol i Doug, atebwyd y cwestiwn hwn yn wael. Drysodd llawer o'r ymgeiswyr rhwng damcaniaeth Rogers a hierarchaeth anghenion Maslow neu ysgrifennon nhw am ddamcaniaethau eraill heb eu dadansoddi mewn perthynas â Rogers.

Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu trafod yn effeithiol gryfderau dull Rogers, neu werthuso ei wendidau drwy wneud cymariaethau perthnasol â modelau seicolegol amgen.

Cw.4(a)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn eithaf da, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn gallu esbonio ffyrdd y gallai'r gweithiwr cymdeithasol helpu Violet i gael mwy o annibyniaeth. Roedd hi'n arbennig o braf gweld ymgeiswyr yn nodi ac yn esbonio amrywiaeth o gymhorthion ac addasiadau priodol y gallai Violet eu defnyddio i gynnal ei hannibyniaeth a gwella ei hansawdd bywyd.

Cw.4(b)

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu nodi'n gywir bod Stephen yn dod yn ofalwr i Violet yn ddigwyddiad bywyd anrhagweladwy, er i nifer bach ddewis rhagweladwy. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y gwahaniaeth rhwng digwyddiadau bywyd rhagweladwy ac anrhagweladwy. Digwyddiadau bywyd rhagweladwy yw'r rhai y disgwylir iddyn nhw ddigwydd fel rhan o gwrs arferol bywyd, fel dechrau yn yr ysgol, dechrau gweithio, ymddeol, neu ddod yn rhiant. Mae digwyddiadau bywyd anrhagweladwy, fodd bynnag, yn digwydd yn annisgwyl ac yn aml y tu hwnt i reolaeth unigolyn, fel dod yn ofalwr oherwydd salwch aelod o'r teulu, cael damwain, profedigaeth, neu gael diagnosis cyflwr tymor hir.

Dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus a allai'r digwyddiad sy'n cael ei ddisgrifio fod wedi cael ei ragweld yn rhesymol cyn dod i farn.

Cw.4(c)

Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan, gydag ymgeiswyr y bandiau uwch yn gallu esbonio'n llawn ddwy ffordd wahanol y byddai cyflwr tymor hir Violet yn gallu effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol Stephen. Ar rai achlysuron, canolbwyntiodd ymgeiswyr ar agweddau eraill ar ddatblygiad yn hytrach nag ar ddatblygiad cymdeithasol, a gyfyngodd ar eu marciau.

Nododd yr ymatebion cryfaf yn eglur sut byddai cyflwr tymor hir Violet yn gallu gwneud i Stephen fod yn ofalwr ac yna esboniwyd sut byddai hyn yn effeithio ar ei ddatblygiad cymdeithasol.

Un enghraifft effeithiol oedd ymgeiswyr yn esbonio'r baich ariannol o ofalu am Violet, fel prynu offer ychwanegol neu addasiadau i'r cartref, neu dalu am y costau sy'n gysylltiedig â theithio i apwyntiadau ysbyty. O ganlyniad, efallai byddai llai o incwm gwario gan Stephen ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, hobïau, neu dreulio amser gyda ffrindiau, a allai gael effaith negyddol ar eu datblygiad cymdeithasol.

Hefyd, roedd hi'n braf gweld rhai ymgeiswyr yn ystyried effeithiau cadarnhaol bod yn ofalwr ar ddatblygiad cymdeithasol Stephen.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Esboniodd ymateb arbennig o gryf y gall Stephen dreulio cyfnodau arwyddocaol o amser yn gofalu am Violet, gan leihau'r cyfleoedd i gwrdd â ffrindiau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Gallai hyn gyfyngu ar ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu. I'r gwrthwyneb, gallai gofalu am Violet helpu Stephen i ddatblygu empathi, amynedd, a sgiliau rhyngbersonol cryfach drwy fwy o ryngweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, aelodau o'r teulu, a rhwydweithiau cymorth, gan gefnogi ei ddatblygiad cymdeithasol yn gadarnhaol.

Cw.5(a)

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu nodi'n gywir y cam bywyd fyddai'n dod nesaf i Edu. Nododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr mai plentyndod fyddai'n dod nesaf i Edu. Nododd nifer bach o ymgeiswyr lencyndod yn anghywir; fodd bynnag, yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda.

Cw.5(b)

Ar brydiau, roedd ymgeiswyr yn gallu esbonio'r cerrig milltir efallai nad yw Edu yn eu cyrraedd yn 20 mis oed. Fodd bynnag, doedd rhai ymatebion ddim yn ddigon manwl a doedden nhw ddim yn nodi'n eglur y cerrig milltir penodol cerrig milltir efallai nad yw Edu yn eu cyrraedd.

Dylai ymgeiswyr gofio bod cerrig milltir yn cyfeirio at sgiliau neu ymddygiad datblygiadol penodol sy'n ddisgwyliedig fel arfer erbyn oedran penodol. Mae enghreifftiau o gerrig milltir a ddylai gael eu cyrraedd fel arfer cyn 20 mis oed yn cynnwys cerdded yn annibynnol, defnyddio ystod o eiriau unigol, dilyn cyfarwyddiadau syml, dangos mwy a mwy o annibyniaeth, ac ymwneud â gweithgareddau chwarae syml.

Ni fynegodd rhai ymgeiswyr eu syniadau'n eglur ac felly ni nodon nhw'n benodol pa garreg filltir nad oedd Edu yn ei chyrraedd. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw'n nodi'n eglur y garreg filltir nad yw'n cael ei chyrraedd cyn esbonio sut i ddelio â hyn.

Yn ogystal, roedd rhai pwyntiau AA2 Cymhwyso heb eu datblygu'n ddigonol. Er enghraifft, dywedodd ymgeiswyr yn aml y byddai'n bosibl delio â charreg filltir nad oedd wedi'i chyrraedd drwy therapi iaith a lleferydd ond esbonion nhw ddim sut gallai'r ymyriad hwn gefnogi Edu. Esboniodd ymatebion cryfach y gallai therapydd iaith a lleferydd asesu anghenion cyfathrebu Edu, rhoi gweithgareddau ac ymarferion wedi'u targedu i ddatblygu geirfa a sgiliau iaith, a gweithio gyda rhieni neu ofalwyr i gefnogi datblygiad cyfathrebu gartref.

Cw.6(a)

Ar brydiau, roedd ymgeiswyr yn gallu amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar wydnwch heblaw am symud i ffwrdd oddi wrth ei rieni a methu ei aseiniad cyntaf. Roedd hi'n braf gweld ymgeiswyr yn nodi amrywiaeth o ffactorau perthnasol ac yn esbonio eu heffaith bosibl ar wydnwch.

Er enghraifft, esboniodd rhai ymgeiswyr y gallai ffactorau economaidd, fel dyled neu bwysau ariannol, effeithio ar wydnwch Steve yn y brifysgol drwy achosi straen a phryder, fel ei bod hi'n fwy anodd iddo ymdopi â heriau academaidd a phersonol.

Nododd ymgeiswyr eraill y gall Steve ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau neu sefydlu rhwydwaith cefnogi cymdeithasol. Gallai hyn gael effaith negyddol ar ei wydnwch, gan ei fod efallai yn teimlo'n ynysig a bod llai o bobl ganddo i roi cymorth emosiynol yn ystod cyfnodau anodd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Hefyd, roedd hi'n galondid gweld rhai ymgeiswyr yn ystyried ffactorau cadarnhaol a allai gryfhau gwydnwch Steve, fel cael cymorth oddi wrth aelodau o'r teulu, datblygu strategaethau ymdopi effeithiol, ymuno â chlybiau a chymdeithasau yn y brifysgol, neu feithrin cyfeillgarwch cryf â chyd-fyfyrwyr.

Cw.6(b)

Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi dau ddull priodol y byddai'r brifysgol yn gallu eu defnyddio i gefnogi Steve ar ôl iddo fethu ei aseiniad cyntaf yn y brifysgol.

Fodd bynnag, doedd rhai ymatebion ddim yn ddigon manwl ac roedden nhw'n canolbwyntio ar gamau gweithredu y gallai Steve ei hun eu gwneud yn hytrach na'r gefnogaeth y gallai'r brifysgol ei rhoi. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu hymatebion yn nodi'n eglur wasanaethau, ymyriadau, neu fecanweithiau cefnogi y gallai'r brifysgol eu cynnig, fel sesiynau cymorth academaidd, gwasanaethau cwnsela, gweithdai sgiliau astudio, tiwtoriaid personol, neu raglenni mentora.

Cw.6(c)

Roedd y cwestiwn hwn yn asesu sgiliau AA3 yr ymgeiswyr drwy'r gair gorchymyn *archwiliwch*. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr archwilio'r effaith tymor hir y byddai mynd i'r brifysgol yn gallu ei chael ar bob agwedd ar ddatblygiad Steve.

Archwiliodd yr ymatebion a sgoriodd farciau uwch yr effaith yn fanwl drwy gadw ffocws eglur ar y profiad o fynychu'r brifysgol ac archwilio sut gallai effeithio ar ddatblygiad cyfannol Steve dros gyfnod o amser. Ystyriodd ymgeiswyr cryfach yr effaith ar draws y fframwaith PIES (datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, a chymdeithasol) a chefnogi eu pwyntiau ag esboniadau wedi'u datblygu'n dda.

Methodd rhai ymgeiswyr gynnwys un neu ragor o agweddau ar ddatblygiad, gan gyfyngu ar ehangder eu hymateb. Canolbwyntiodd eraill ar effeithiau cadarnhaol yn unig a wnaethon nhw ddim ystyried unrhyw ganlyniadau negyddol posibl.

Dyma rai enghreifftiau o'r atebion cryfach:

- **Datblygiad corfforol:** Gallai mynd i'r brifysgol annog Steve i ddod yn fwy annibynnol o ran rheoli ei iechyd a'i lesiant. Er enghraifft, oherwydd ei fod yn byw oddi cartref, efallai bydd yn rhaid iddo ddysgu sut i goginio prydau o gynhwysion ffres, a allai arwain at arferion bwyta iachach ac iechyd corfforol tymor hir gwell. Fodd bynnag, gall bywyd prifysgol arwain at batrymau cysgu gwael, straen, diffyg ymarfer corff, neu ddewisiadau ffyrdd aniach o fyw os nad ydyn nhw'n cael eu rheoli'n effeithiol.
- **Datblygiad deallusol:** Mae mynd i'r brifysgol yn debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddatblygiad deallusol Steve. Drwy gwblhau aseiniadau, gwneud ymchwil, a datblygu meddwl beirniadol, sgiliau dadansoddol a datrys problemau, bydd Steve yn cynyddu ei wybodaeth a'i allu deallusol. Gall llwyddo i gyrraedd carreg filltir cael gradd prifysgol wella ei gyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol a dangos cyflawniad deallusol sylweddol. Fodd bynnag, gall pwysau academaidd a rhwystrau effeithio'n negyddol ar gymhelliant, hyder, neu ymgysylltu â dysgu os nad yw'n cael mynediad at gymorth priodol.
- **Datblygiad emosiynol:** Gall cwblhau gradd yn llwyddiannus gynyddu hyder, hunan-barch, gwydnwch, ac ymdeimlad o gyflawniad Steve. I'r gwrthwyneb, gall pwysau academaidd parhaus, pryderon ariannol, hiraeth, neu ofn methiant gyfrannu at straen, pryder neu lai o lesiant emosiynol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- **Datblygiad cymdeithasol:** Mae'r brifysgol yn cynnig cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd, datblygu cyfeillgarwch, a meithrin rhwydweithiau proffesiynol. Gall Steve ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryfach drwy ryngweithio ag amrywiaeth wahanol o unigolion. Fodd bynnag, os yw'n cael anhawster ymgartrefu ym mywyd y brifysgol neu wneud ffrindiau, gall brofi unigrwydd neu ynysigrwydd cymdeithasol.

Roedd yr ymatebion cryfaf yn cydnabod bod mynd i'r brifysgol yn gallu cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ddatblygiad ac roedden nhw'n gallu sgorio marciau uwch.

Byddai'n werth i ganolfannau ganolbwyntio ar gwestiwn enghreifftiol 3A, mae Hasheed yn 19 oed ac mae ganddo barlys yr ymennydd. Mae'n astudio cyfrifiadureg yn y brifysgol. Nid yw'n gallu symud llawer ac angen help arno gyda llawer o weithgareddau bywyd bob dydd. Ar hyn o bryd, mae Hasheed yn byw gartref ond mae'n awyddus i fyw mewn tŷ wedi'i rannu gyda'i ffrindiau yng nghanol y dref.

Esboniwch sut bydd mynd i'r brifysgol a byw mewn tŷ wedi'i rannu yn effeithio ar dwf a datblygiad Hasheed. Mae'r papur hwn ar gael yn: - https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/osyafm1k/l3-hsc-pc-ext-dip-unit-2-sams-w-010923.pdf

Cw.7

Nid ymdriniwyd yn llawn â'r cwestiwn hwn, gan fod llawer o'r ymgeiswyr yn methu defnyddio modelau seicolegol i gefnogi eu trafodaeth.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn canolbwyntio'n llawn ar sefyllfa Morfydd, fel ei galluoedd a'i thalentau (er enghraifft, ei sgiliau tennis) yn ogystal â'i gorbryder, ac yn trafod sut gall natur a magwraeth esbonio'r nodweddion hyn. Dylai ymgeiswyr gefnogi eu pwyntiau â modelau a damcaniaethau seicolegol perthnasol.

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu diffinio'r termau *natur* a *magwraeth*; fodd bynnag, ni ddangosodd rhai ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y ddau gysyniad. Roedd ymgeiswyr â chyflawniad uwch yn gallu cynnwys damcaniaethau fel rhai Bowlby, Gesell a Bandura i gefnogi eu dadleuon a'u hesboniadau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 3: HYBU HAWLIAU UNIGOLION

Trosolwg o'r Uned

- Mae'r Asesiad Di-arholiad hwn yn asesu gallu ymgeiswyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (AA1), cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth (AA2), a dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i roi barn ac argymhellion wedi'u cyfiawnhau (AA3) Nododd y gwaith cymedroli rywfaint o anghysondeb wrth gymhwyso'r meini prawf marcio ar draws Canolfannau, yn enwedig lle roedd cwestiynau'n asesu mwy nag un amcan asesu. Mewn nifer bach o Ganolfannau, roedd y dystiolaeth roedd ei hangen ar gyfer un amcan asesu wedi ennill marciau o dan un arall, neu nid oedd ymgeiswyr yn cael digon o gyfle i ddangos pob un o'r amcanion asesu gofynnol.

- Mae angen i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o anghenion, hawliau, gofal a gofynion cefnogi unigolion drwy gydol oes, ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, rhwystrau i gael mynediad at hawliau a gwasanaethau, deddfwriaeth, a mentrau a strategaethau sy'n hybu hawliau. Hefyd, rhaid iddyn nhw gymhwyso'r wybodaeth hon drwy esbonio, trafod, cymhwyso, gwerthuso ac argymhellion wedi'u cyfiawnhau, gan ddefnyddio grŵp wedi'i ddewis yn briodol a nodwyd yn y fanyleb.

- Yn gyffredinol, ymdriniodd y canolfannau a'r ymgeiswyr â'r dasg Asesiad Di-arholiad yn hyderus. Roedd llawer o enghreifftiau o gyflwyniadau wedi'u paratoi'n dda a oedd yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r amcanion asesu. Yn bennaf, dewisodd ymgeiswyr grwpiau o unigolion a nodwyd yn y fanyleb, fel eu bod yn gallu parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion asesu a chael mynediad at yr ystod lawn o farciau sydd ar gael. Lle dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r geiriau gorchymyn a'r gofynion asesu, roedden nhw'n fwy abl i gyrraedd y banciau marciau uwch.

- Lle roedd ymgeiswyr yn dewis grwpiau y tu allan i'r rhai a nodwyd yn y fanyleb, roedd yr ymatebion yn aml yn llai llwyddiannus o ran ymdrin â chwmpas llawn Cwestiynau A–D. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr yn methu rhoi tystiolaeth ddigon eang neu fanwl er mwyn bodloni'r geiriau gorchymyn a'r gofynion asesu. Felly, anogir canolfannau i sicrhau bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n briodol cyn dechrau'r Asesiad Di-arholiad a'u bod yn cael eu llywio tuag at ddewis grwpiau sy'n cynnig cyfleoedd addas i ymdrin â phob agwedd ar ofynion y dasg.

- Cyflwynwyd cyflwyniadau ar fformatau amrywiol, gan gynnwys cyflwyniadau PowerPoint gyda throsleisio wedi'i fewnblannu, sgriptiau wedi'u teipio a chyflwyniadau fideo wedi'u recordio. Oherwydd y dulliau hyn, roedd yr ymgeiswyr yn gallu bodloni'r gofynion i gynhyrchu podlediad, cyflwyniad neu fideo. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd y podlediadau'n cynnwys yn bennaf yr ymgeiswyr yn darllen yn uniongyrchol o sleidiau cyflwyniad neu nodiadau wedi'u paratoi, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i ddarparu'r esboniad a datblygiad manwl roedd eu hangen i gyfiawnhau dyfarnu marciau yn y bandiau uchaf. Lle nad oedd cyflwyniadau'n cael eu rhoi'n bersonol neu gyda throsleisio wedi'i recordio, dylai Canolfannau sicrhau bod digon o dystiolaeth ysgrifenedig yn y cyflwyniad a/neu'r sgript ategol i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- O safbwynt gweinyddol, uwchlwythodd mwyafrif y Canolfannau waith yr ymgeiswyr yn gywir ac yn briodol. Fodd bynnag, anogir Canolfannau i leihau i'r eithaf nifer y ffeiliau sy'n cael eu huwchlwytho lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn cefnogi proses gymedroli fwy syml. Roedd achosion lle cyflwynwyd cynifer â chwe ffeil ar wahân ar gyfer ymgeisydd unigol.

- Dylai canolfannau sicrhau bod y dyraniadau marciau ar gyfer cwestiynau wedi'u rhannu, yn enwedig Cwestiynau B a D, wedi'u nodi'n glir ar daflen y clawr ac yng ngwaith yr ymgeisydd. Mae hyn yn helpu'r cymedrolwyr i ddod o hyd i dystiolaeth ac i ddeall sut mae marciau wedi'u dyfarnu. Atgoffir canolfannau hefyd i wneud defnydd llawn o'r adrannau sylwadau sydd ar y ddogfennaeth asesu. Nid yw sylwadau fel "*gwaith wedi'i anodi"* yn unig yn rhoi digon o gyflawnhad dros benderfyniadau asesu. Dylid defnyddio anodi a sylwadau'r aseswr i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd ac i hwyluso'r broses gymedroli.

- Cynhwysodd rhai ymgeiswyr gyfrif geiriau yn eu cyflwyniad neu gyfeirio at uchafswm terfyn geiriau. Atgoffir canolfannau nad oes cyfrif geiriau ar gyfer yr uned hon, a bod unrhyw derfyn geiriau blaenorol wedi'i ddileu. Yn hytrach, dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar gynhyrchu ymatebion sy'n bodloni gofynion yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn yn llawn, gan sicrhau bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd, yn enwedig yn y bandiau marciau uwch.

- Atgoffir canolfannau fod yn rhaid i ymgeiswyr ddilysu mai eu gwaith nhw yw pob darn o waith a gyflwynwyd. Lle mae pryderon ynghylch defnydd amhriodol o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan Ddeallusrwydd Artiffisial, rhaid i Ganolfannau ddilyn eu gweithdrefnau camymddwyn eu hunain a chyfeirio'r mater at yr arweinydd sicrhau ansawdd priodol yn unol â pholisi'r Ganolfan. Dylai gweithdrefnau o'r fath fod yn unol â chanllawiau cyfredol y CGC a gofynion y corff dyfarnu. Nid yw'n briodol gostwng y marciau'n unig lle amheuir bod camymddwyn. Rhaid i ganolfannau ymchwilio i bryderon a dilyn y gweithdrefnau adrodd ac uwchgyfeirio. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol o hyd am ddilysrwydd pob darn o waith a gyflwynwyd i'w asesu.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cwestiwn A

Ymatebodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn effeithiol i'r cwestiwn hwn, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o anghenion, hawliau a gofynion gofal a chymorth y grŵp a ddewiswyd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion wedi'u hymchwilio'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol. Hefyd cynhwysodd rhai ymgeiswyr safbwyntiau damcaniaethol; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ennill marciau bellach ac ni ddylen nhw fod yn rhan o ymatebion yn y dyfodol. Atgoffir canolfannau fod y cynnwys perthnasol i'w weld yn adran 3.1 y fanyleb. Er mai "amlinellwch" yw'r gair gorchymyn, mae disgwyl i ymgeiswyr sy'n gweithio ar Lefel 3 roi amlinelliad manwl. Roedd ymatebion cryfach yn gwneud cysylltiadau eglur rhwng anghenion, hawliau, a gofynion gofal a chymorth unigolion. Lle nad oedd y cysylltiadau hyn i'w gweld, roedd yr ymgeiswyr yn methu dangos y lefel o ddealltwriaeth sydd ei hangen ar gyfer y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cwestiwn B

Dyma'r adran sydd â'r marciau uchaf yn yr asesiad ac mae'n werth 22 marc ar draws dau amcan asesu. Gan fod y cwestiwn hwn yn asesu AA1 ac AA3, dylai Canolfannau sicrhau bod digon o gyfle gan ymgeiswyr i ddangos eu bod yn cyflawni'r ddau amcan asesu.

Mae AA1 yn cyfrannu cyfanswm o chwe marc ac yn gyffredinol cafodd ei gwblhau'n dda. Er i rai Canolfannau ymdrin â'r cwestiwn yn gyfannol, roedd yr ymatebion mwyaf llwyddiannus yn rhoi sylw ar wahân i AA1 ac AA3, fel ei bod hi'n haws dangos sut roedd pob amcan asesu wedi'i fodloni.

Roedd hi'n ymddangos bod rhywfaint o gamddealltwriaeth mewn nifer bach o Ganolfannau o ran y cynnwys roedd ei angen ar gyfer AA1. Atgoffir Canolfannau fod adran 3.2 y fanyleb yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniad iechyd a llesiant a'i elfennau gwahanol cyn ystyried y ffactorau sy'n effeithio arno.

Ar gyfer AA3, llwyddodd ymgeiswyr ar y cyfan i nodi ac archwilio ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant. Fodd bynnag, symudodd ymatebion cryfach y tu hwnt i nodi a disgrifio syml. I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr esbonio sut a pham mae ffactorau penodol yn effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp a ddewiswyd a chefnogi'r esboniadau hyn ag enghreifftiau a thystiolaeth berthnasol. Mae angen ystyried effaith ffactorau'n fanwl, yn hytrach na bod rhestr o ddylanwadau neu ddisgrifiadau byr. Dylai aseswyr anodi'n eglur lle ymdriniwyd â phob amcan asesu a rhoi digon o sylwadau i esbonio sut mae marciau wedi'u dyrannu.

Cwestiwn C

Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda drwy nodi amrywiaeth o rwystrau perthnasol i'r grŵp a ddewiswyd. Er i rai ymatebion gynnwys strategaethau ar gyfer goresgyn y rhwystrau hyn hefyd, nid yw'r cynnwys hwn yn ennill marciau bellach o fewn Cwestiwn C ac ni ddylen nhw gael eu cynnwys, fel y nodir yn adran 3.3 y fanyleb.

Mae'r gair gorchymyn "trafodwch" yn gofyn am fwy na nodi'r rhwystrau. Rhoddodd ymatebion cryfach ystyriaeth i arwyddocâd ac effaith rhwystrau ar unigolion ac archwilio'r goblygiadau ehangach ar gyfer cael mynediad at hawliau, gofal a chymorth. Fel arfer, datblygodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uchaf eu trafodaeth drwy esbonio'n fanwl, gyda chefnogaeth enghreifftiau perthnasol i'r grŵp a ddewiswyd.

Cwestiwn Ch

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth a'i rôl wrth hyrwyddo a gwarchod hawliau unigolyn. Nododd llawer o ymgeiswyr ystod eang o ddeddfwriaeth berthnasol a chysylltu hyn yn briodol â'r grŵp a ddewiswyd. Gan fod y cwestiwn hwn yn asesu AA2, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â'r ddeddfwriaeth at y grŵp a ddewiswyd. Dangosodd yr ymatebion cryfaf yn gyntaf ddealltwriaeth gadarn o bwrpas, egwyddorion a gofynion allweddol y ddeddfwriaeth cyn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn effeithiol at anghenion a hawliau'r grŵp a ddewiswyd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, aeth ymgeiswyr ati'n syth i gymhwyso heb ddangos yn gyntaf ddealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth ei hun. Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gywir a chymhwyso effeithiol hefyd. Mae ymatebion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gymhwyso, heb sefydlu'n gyntaf ddealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth, yn annhebygol o fodloni gofynion y bandiau marciau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cwestiwn D

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr sgiliau ymchwilio effeithiol ac roedden nhw'n gallu nodi amrywiaeth o fentrau a strategaethau perthnasol yn unol ag AA1. Fodd bynnag, roedd cynnydd nodedig yn y gyfres hon mewn ymatebion lle roedd mentrau a strategaethau wedi'u cymysgu ag argymhellion neu ddulliau er mwyn hybu hawliau a asesir o dan AA3. Atgoffir canolfannau fod mentrau a strategaethau'n wahanol i argymhellion neu ddulliau. Mae'r fanyleb (adran 3.4) yn gwahanu'r cysyniadau hyn yn glir, a dylid ymdrin â nhw yn unol â hynny. Gall camddehongli'r gofynion hyn roi ymgeiswyr o dan anfantais a chyfyngu ar eu mynediad at y marciau sydd ar gael. Amlinellir y gwahaniaeth rhwng strategaethau a mentrau isod.

- Cynlluniau eang, tymor hir yw strategaethau er mwyn gwella canlyniadau a llywio gweithredu. Mae enghreifftiau'n cynnwys Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles i Gymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru.
- Rhaglenni, ymgyrchoedd neu gamau gweithredu penodol yw mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi nodau strategaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Amser i Newid Cymru (Mind) a Chynllun Gweithredu Dementia i Gymru (Cymdeithas Alzheimer's).

AA1 – mae gofyn i ymgeiswyr nodi ac esbonio mentrau a strategaethau perthnasol.

AA3 – mae gofyn i ymgeiswyr wneud argymhellion wedi'u cyfiawnhau a gwerthuso sut gall dulliau hybu hawliau'r grŵp a ddewiswyd. Ni ddylai argymhellion ennill marciau fel mentrau neu strategaethau.

Roedd yr ymatebion cryfaf yn gwahaniaethu'n eglur rhwng yr elfennau hyn ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut maen nhw'n rhyngweithio i gefnogi a hybu hawliau'r grŵp a ddewiswyd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 4: SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL

Trosolwg o'r Uned

Canmolir canolfannau am gyflwyno gwaith yr ymgeiswyr yn brydlon, gyda mwyafrif y samplau wedi'u huwchlwytho ar fformat trefnus a'r ddogfennaeth ofynnol gyda nhw. Cyflwynodd mwyafrif y canolfannau erthyglau, ffeithluniau, taflenni marciau a ffurflenni datganiad yn briodol, ac yn gyffredinol, roedd ffurflenni sylwadau'r canolfannau wedi'u llenwi i safon dda, gan roi cyd-destun defnyddiol i'r gwaith cymedroli.

Braf oedd gweld llawer o enghreifftiau o wybodaeth gadarn am y pwnc, cymhwyso cysyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn feddylgar, a defnydd mwyfwy hyderus o derminoleg arbenigol. Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o'r cyflyrau a gyflwynwyd yn y deunydd ysgogi, a chynhyrchon nhw ymatebion wedi'u datblygu'n dda a oedd yn ymdrin yn effeithiol â'r amcanion asesu.

Cymhwysodd y rhan fwyaf o'r canolfannau y meini prawf marcio yn gywir, a gwelwyd enghreifftiau o wirio mewnol effeithiol. Lle roedd gwirio mewnol wedi digwydd, roedd y penderfyniadau asesu'n aml yn fwy cyson ac yn dilyn safonau cenedlaethol yn agos.

Fodd bynnag, ymddangosodd nifer o themâu dro ar ôl tro ar draws y gyfres gymedroli y dylai canolfannau roi sylw iddyn nhw er mwyn parhau i gynnal cysondeb, hygyrchedd a thegwch.

Strwythur cyffredinol, terminoleg a berfau gorchmynnol

- Atgoffir canolfannau y dylai'r gwaith ar gyfer cwestiynau (a) i (c) gael ei gyflwyno fel un erthygl sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol ac nid fel traethodau ar wahân neu ymatebion unigol. Er i nifer o ymgeiswyr ddefnyddio fformat erthygl priodol, cyflwynodd nifer sylweddol eu gwaith fel traethodau academaidd o hyd.

- Hefyd, dylai ymgeiswyr barhau i gael eu hannog i ysgrifennu yn y trydydd person drwy eu herthygl i gyd. Problem gyffredin ar draws y canolfannau oedd ysgrifennu yn y person cyntaf, rhywbeth nad yw'n cydymffurfio'n llawn â gofynion cyhoeddiad proffesiynol. Cadwodd yr ymatebion cryfaf at dôn wrthrychol, broffesiynol a defnyddio terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol yn gyson.

- Byddai llawer o ymgeiswyr yn elwa o strwythuro eu gwaith gan ddefnyddio'r penawdau sydd yn y cynllun marcio. Mae hyn yn cefnogi ymgeiswyr i drefnu eu gwaith mewn ffordd resymegol ac yn sicrhau bod pob agwedd ar bob tasg yn cael sylw cynhwysfawr.

- Dylid rhoi sylw arbennig i ferfau gorchmynnol. Er i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o "disgrifiwch", roedd llawer o'r ymatebion i gwestiwn (c) yn dal i fod yn ddisgrifiadol a doedden nhw ddim yn bodloni gofynion y gair gorchymyn "aseswch" yn llawn. Aeth ymgeiswyr a gafodd sgôr uwch y tu hwnt i ddisgrifio, i werthuso effeithiolrwydd, cyfyngiadau ac effaith gwahanol ddulliau o ran gofal a chymorth.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cyfrif geiriau

Pryder parhaus oedd nad oedd ymgeiswyr yn cadw'n gyson at yr uchafswm o 3,000 o eiriau. Mewn rhai achosion, ysgrifennodd ymgeiswyr gannoedd lawer o eiriau dros y cyfrif geiriau a ganiateir. Atgoffir canolfannau fod y terfyn geiriau'n amod asesu pwysig er mwyn sicrhau tegwch a bod modd cymharu ar draws y gwaith a gyflwynir. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cyfrif geiriau clir ar ddiwedd eu gwaith. Hefyd, efallai bydd canolfannau eisiau arwain dysgwyr tuag at ddyrannu geiriau'n fras rhwng elfennau'r erthygl a'r ffeithlun er mwyn cefnogi cynllunio effeithiol.

Gwirio Mewnol

Gwelwyd enghreifftiau o wirio mewnol effeithiol ar draws nifer o ganolfannau. Lle roedd tystiolaeth o wirio mewnol, roedd y penderfyniadau asesu'n aml yn fwy cyson ac yn nes at y dyraniad gradd disgwyliedig. Anogir canolfannau'n gryf i weithredu gweithdrefnau gwirio mewnol cadarn, gan gynnwys adolygu penderfyniadau marcio a thrafodaeth rhwng aseswyr. Dangosodd y rhan fwyaf lle na welwyd tystiolaeth o wirio mewnol eu bod yn cymhwyso'r cynllun marcio'n anghyson, o ganlyniad cafwyd penderfyniadau marcio hael a llym fel ei gilydd.

Gweinyddu a Dilysu

Cwblhawyd y ddogfennaeth weinyddol ofynnol yn briodol gan y rhan fwyaf o ganolfannau. Fodd bynnag, nodwyd nifer o broblemau, gan gynnwys rhifau ymgeiswyr ar goll, confensiynau anghyson o ran enwi ffeiliau, tystiolaeth ymgeiswyr anghywir yn cael ei huwchlwytho, a ffurflenni datganiad yn cael eu llofnodi a'u dyddio ar ôl i waith gael ei gyflwyno ar IAMIS yn barod i'w gymedroli. Atgoffir canolfannau y dylai ymgeiswyr lofnodi a dyddio ffurflenni datganiad cyn i'r aseswyr farcio, ac y dylai aseswyr lofnodi a dyddio ar ôl gorffen marcio. Byddai enwi ffeiliau'n gyson gan ddefnyddio enwau ymgeiswyr a/neu rifau ymgeiswyr hefyd yn cefnogi proses gymedroli fwy effeithlon.

Cyflwyno a strwythur ffeiliau

Cyflwynwyd gwaith ar amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys PDFs, dogfennau Word a ffolderi wedi'u sipio. Er ein bod yn croesawu hyblygrwydd o ran fformatau digidol, eglurder a hygyrchedd ddylai fod yn flaenoriaeth o hyd. Cyflwynodd llawer o ganolfannau ddeunyddiau wedi'u trefnu'n dda; fodd bynnag, gyda rhai cyflwyniadau, roedd angen chwilio ar draws llawer o ffeiliau a oedd â chonfensiynau enwi anghyson. Anogir canolfannau i gyflwyno gwaith mewn trefn resymegol ac i sicrhau bod yr holl ddogfennaeth angenrheidiol wedi'i nodi'n eglur ag enw a rhif yr ymgeisydd.

Fformat a dyluniad y ffeithlun

Roedd ansawdd y ffeithluniau a gyflwynwyd yn amrywio'n sylweddol. Roedd yr ymatebion cryfach yn dangos cyfathrebu gweledol effeithiol, cyflwyno gwybodaeth yn gryno a defnydd priodol o offer dylunio digidol. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn dal i gynhyrchu dogfennau Word gyda llawer o destun yn hytrach na ffeithluniau go iawn. Pwrpas y dasg yw asesu gallu ymgeiswyr i gyfleu gwybodaeth iechyd yn weledol ac yn gryno. Dylid annog ymgeiswyr i greu ffeithlun un dudalen gan ddefnyddio meddalwedd addas fel PowerPoint, Google Slides, Canva neu offer dylunio tebyg.

Hefyd, gwelodd y cymedrolwyr enghreifftiau o ddiagramau cylchredau trosglwyddo wedi'u copïo'n uniongyrchol o ffynonellau ar y Rhyngrwyd. Dylid annog ymgeiswyr i greu ac addasu eu cynrychioliadau gweledol eu hunain i ddangos dealltwriaeth ac i gymhwyso gwybodaeth.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cyfeirnodi ac uniondeb academaidd

Er nad yw cyfeirnodi'n un o ofynion ffurfiol y cymhwyster, braf oedd gweld bod llawer o'r ymgeiswyr yn cynnwys rhestrau cyfeirio a thystiolaeth o ymchwil ehangach. Dylai ymgeiswyr barhau i gael eu hannog i ddatblygu arferion academaidd da drwy gynnwys dyfyniadau yn y testun a rhestri cyfeirio llawn lle bo'n briodol. Er na nodwyd llawer o bryderon o gwbl ynghylch uniondeb academaidd ar gyfer y gyfres hon, dylid parhau i hyrwyddo cyflwyno gwreiddiol a chydnabod ffynonellau'n briodol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Yn gyffredinol, roedd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu yn dangos dilyniant rhesymegol ar gyfer cwestiynau (a) i (c).

Cwestiwn (a)

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda iawn o Glefyd Niwron Echddygol (MND). Archwiliodd yr ymatebion cryfaf amrywiaeth o achosion posibl, gan gynnwys ffactorau genetig, amgylcheddol, niwrolegol, galwedigaethol, rhai'n gysylltiedig â ffordd o fyw a rhai'n gysylltiedig ag oedran, wrth gydnabod nad oes neb yn gwybod o hyd beth yn union sy'n achosi MND. Roedd yr ymatebion yn y bandiau uchaf yn defnyddio terminoleg gywir i esbonio prosesau ac arwyddion a symptomau'r clefyd, gan gynnwys cyhyrau gwan, cyhyrau'n plycio (fasciculations), dysffagia, nam ar y lleferydd, dirywiad resbiradol, blinder a newidiadau gwybyddol. Gwahaniaethodd yr ymgeiswyr hyn yn eglur rhwng effeithiau tymor byr a thymor hir a'u cysylltu'n effeithiol â dilyniant y clefyd, colli annibyniaeth, anawsterau cyfathrebu, methiant resbiradol ac ansawdd bywyd wedi'i chyfyngu. Hefyd, archwiliodd ymatebion cryf yr effaith ar fywyd dyddiol yn fanwl, gan ystyried cyflogaeth, gofal personol, perthnasoedd, llesiant emosiynol, ynysigrwydd cymdeithasol a dibyniaeth gynyddol ar ofalwyr a gwasanaethau cymorth. Roedd yr ymatebion yn y bandiau isaf yn tueddu i ddisgrifio'r symptomau heb ddigon o ddadansoddi, roedd diffyg manylder gwyddonol neu roedden nhw'n methu gwahaniaethu'n eglur rhwng effeithiau tymor byr a thymor hir.

Cwestiwn (b)

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gryf ar y cyfan, er bod amrywiaeth o ran ehangder a manylder y strategaethau a drafodwyd. Disgrifiodd yr ymgeiswyr cryfach amrywiaeth eang o strategaethau lleihau risg perthnasol i unigolion sy'n byw â'r cyflwr, gan gynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, cymorth resbiradol, rheoli maeth, cymhorthion cyfathrebu, technoleg i roi cymorth, addasiadau amgylcheddol, gofal amlddisgyblaethol, ymarfer yn seiliedig ar gryfderau a dulliau person-ganolog. Hefyd, dangosodd llawer o'r ymgeiswyr ymwybyddiaeth o wasanaethau arbenigol, elusennau a chyrff trydydd sector, gan gysylltu'r rhain yn briodol â lleihau ynysigrwydd cymdeithasol, cynnal annibyniaeth a hybu llesiant. Lle roedd ymatebion yn fyr o'r nod, roedd hyn yn aml oherwydd bod ymgeiswyr yn nodi strategaethau heb esbonio'n llawn sut byddai'n bosibl lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag MND. Roedd yr ymatebion yn y bandiau is yn aml yn canolbwyntio ar ofal a chymorth cyffredinol yn hytrach na lleihau risgiau penodol i'r cyflwr, heb drafod yn drylwyr reoli resbiradol, anawsterau llyncu neu gynllunio gofal yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cwestiwn (c)

Cynhyrchodd y cwestiwn hwn rai o'r ymatebion cryfaf a welwyd yn ystod y gyfres. Dangosodd yr ymgeiswyr a sgoriodd y marciau uwch ddealltwriaeth fanwl o anghenion gofal a chymorth unigolion sy'n byw gyda MND, ynghyd ag anghenion aelodau o'r teulu, gofalwyr a chylch cymorth ehangach. Aseswyd amrediad eang o ddulliau rhoi cymorth, gan gynnwys diagnosis, monitro, adfer, gofal amlddisgyblaethol, darpariaeth seibiant, cymorth emosiynol, addasiadau i'r cartref, technoleg i roi cymorth, gofal lliniarol a chynllunio diwedd oes. Llwyddodd yr ymatebion cryfach i gynnwys modelau iechyd a llesiant drwy gydol eu trafodaeth. Yn aml, cymhwysodd ymgeiswyr y modelau meddygol, cymdeithasol a bioseicogymdeithasol yn effeithiol, gan eu defnyddio i werthuso dulliau gwahanol o roi gofal a chymorth. Symudodd yr ymatebion hyn y tu hwnt i ddisgrifio, i ddod i farn gytbwys o ran effeithiolrwydd, cyfyngiadau ac effaith ar ansawdd bywyd. Fodd bynnag, roedd ymatebion y bandiau isaf yn aml yn dal yn ddisgrifiadol, yn cynnig ychydig iawn o farn werthusol neu'n hepgor cymhwyso modelau iechyd a llesiant yn benodol. Gwendid cyffredin oedd bod dim digon o ystyriaeth i anghenion gofalwyr, aelodau o'r teulu a chylchoedd cymorth ehangach.

Cwestiwn (ch)

Roedd ansawdd yr ymatebion ar ffurf ffeithluniau yn amrywio'n sylweddol ar draws y canolfannau. Dangosodd ymatebion cryf ddealltwriaeth o Staphylococcus aureus sydd ag ymwrthedd i fethisilin (MRSA) fel haint bacteriol sydd ag ymwrthedd i wrthfiotigau a chyfleu gwybodaeth yn effeithiol drwy fformatau gweledol cryno. Llwyddodd ymatebion yn y bandiau uwch i esbonio'n gywir achosion, sut mae'r haint yn cael ei throsglwyddo a chymhlethdodau tymor hir. Cymhwysodd yr ymgeiswyr cryfaf bob un o chwe cham y gylchred drosglwyddo yn llwyddiannus: cyfrwng heintus, cronfa, porth gadael, modd trosglwyddo, porth mynediad ac organeb letyol agored i haint. Hefyd, dangosodd llawer ddealltwriaeth o sut byddai modd torri ar draws y gylchred drosglwyddo. Gwendid arwyddocaol cyffredin i lawer o waith a gyflwynwyd oedd cymhwyso'r gylchred drosglwyddo yn anghyflawn. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr y trosglwyddo'n gyffredinol ond methon nhw ymdrin â phob un o'r chwe cham yn benodol neu eu cymhwyso'n benodol at MRSA. Yn aml, archwiliwyd yn fanwl gymhlethdodau tymor hir fel sepsis, niwed i organau, osteomyelitis, haint gronig, cymhlethdodau resbiradol, niwed i'r meinwe a mwy o risg o farwoldeb. Cynhyrchodd rhai ymgeiswyr ymatebion a oedd yn cynnwys gormod o lawer o destun a doedden nhw ddim yn bodloni disgwyliadau tasg ffeithlun yn llawn.

Ar y cyfan, asesodd mwyafrif y canolfannau waith ymgeiswyr yn gywir. Lle roedd anghysondebau'n digwydd, roedden nhw fel arfer yn ymwneud â chymhwyso'r bandiau marciau uwch, yn enwedig yng nghwestiwn (c), lle roedd ymatebion disgrifiadol weithiau'n cael eu gwobrwyo'n fwy hael na bwriad y meini prawf asesu.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid cadw at yr uchafswm o 3,000 o eiriau a rhaid nodi'r cyfrif geiriau'n eglur ar waith yr ymgeisydd.
- Dylai ymatebion i gwestiynau (a) – (c) gael eu cyflwyno fel un erthygl mewn cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i ysgrifennu yn y trydydd person.
- Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r penawdau sydd wedi'u rhoi yn y cynllun marcio i gefnogi strwythur a chwmpas y gofynion asesu.
- Yng nghwestiwn (c), rhaid i ddysgwyr asesu'r ddarpariaeth gofal a chymorth a chymhwyso modelau iechyd a llesiant perthnasol yn hytrach na dibynnu ar ddisgrifio'n unig.
- Dylai ffeithluniau gael eu cyflwyno fel dogfennau cryno, deniadol yn weledol, ar un dudalen yn unig, gan ddefnyddio offer dylunio digidol priodol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- Dylai pob un o chwe cham y gylchred drosglwyddo gael ei gymhwyso'n bendant ac yn benodol at y cyflwr heintus a roddwyd yng nghwestiwn (ch).
- Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys dyfyniadau a rhestri cyfeirio er mwyn cefnogi arferion academaidd da.
- Mae gwirio mewnol yn dal i fod yn broses sicrhau ansawdd werthfawr ac fe'i hanogir yn gryf.
- Rhaid llenwi ffurflenni datganiad a dilysrwydd yn gywir, a chael llofnodion ymgeiswyr cyn i'r aseswyr farcio a'u cyflwyno i'w cymedroli.
- Mae enwi ffeiliau'n gyson a chymorth gweinyddol cywir yn cefnogi proses gymedroli effeithlon ac yn lleihau'r tebygolrwydd o broblemau clerigol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 5: CEFNOGI UNIGOLION SYDD MEWN PERYGL I GYFLAWNI'R CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL

Trosolwg o'r Uned

Dyma'r drydedd gyfres ar gyfer yr uned hon ers iddi gael ei hasesu fel Asesiad Di-arholiad. Braf oedd gweld bod ymgeiswyr a Chanolfannau wedi parhau i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â'r uned, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fformatau i ymateb i'r tasgau. Ers symud i fformat Asesiad Di-arholiad, mae mwy o ymgysylltu wedi bod â'r asesiad ac mae ymgeiswyr wedi defnyddio'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig drwy'r astudiaethau achos i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Yn gyffredinol, roedd lefel y gwaith a'r ddealltwriaeth a welwyd yng nghyfres yr haf hwn o safon dda. Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth eglur ar draws y canlyniadau dysgu a chymhwyso hyn yn effeithiol at yr unigolyn a ddewiswyd. Roedd hi'n amlwg bod Canolfannau wedi ymgysylltu'n dda â gofynion y tasgau ac roedd llawer o enghreifftiau o arferion ardderchog.

Ar y cyfan, Tasg 1 oedd y gryfaf o'r ddwy dasg gyda llawer o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r ffactorau a oedd yn effeithio ar yr unigolyn a ddewiswyd. Roedd ymatebion cryfach yn gallu gwneud cysylltiadau amlwg a pherthnasol rhwng amgylchiadau'r unigolyn, ei anghenion a'r effaith bosibl ar ei iechyd a'i lesiant. Dangosodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth drwyddi draw, yn hytrach na rhoi ymatebion cyffredinol.

Mae'r Asesiad Di-arholiad yn cynnwys dwy dasg. Mae'r dasg gyntaf yn ymwneud â chyflwyno nodiadau achos ar unigolyn a ddewiswyd ac mae'n asesu 5.1, 5.2 a 5.5. Ar gyfer y dasg hon, mae'r dysgwyr yn gweithio mewn amodau rheoledig, heb fynediad i'r rhyngrwyd ac maen nhw'n gallu defnyddio nodiadau a baratowyd ymlaen llaw. Dylid cynnwys y nodiadau hyn yn rhan o unrhyw ddeunydd sy'n cael ei uwchlwytho i IAMIS, ynghyd â gwaith yr ymgeiswyr, dogfennau asesu, datganiad dysgwyr a thaflen amser. Defnyddiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o ddulliau ar gyfer y dasg hon, yn amrywio o adroddiadau a nodiadau achos traddodiadol i ddefnyddio gwahanol feddalwedd i gyflwyno eu gwaith, fel PowerPoint neu Google Slides. Lle defnyddiwyd sleidiau, llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i ymhelaethu'n ddigonol gyda nodiadau ychwanegol ac i ddangos dealltwriaeth dda.

Yn Nhasg 1d, dangosodd ymgeiswyr yn gyffredinol ddealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn a ddewiswyd. I gyrraedd y bandiau marciau uwch, mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn nodi ac yn trafod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol penodol, gan gysylltu eu rolau a'u cymorth yn eglur ag anghenion yr unigolyn yn hytrach na rhoi ymatebion cyffredinol.

Mae'r ail dasg yn ymwneud â 5.3 a 5.4, a chaniateir mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer y dasg hon er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i greu cynllun gofal ar gyfer yr unigolyn a ddewiswyd. Gwelwyd amrywiaeth o fformatau yn y dasg hon gan gynnwys sleidiau a dogfennau Word. Er bod llawer o enghreifftiau o ymatebion manwl a threfnus, mae angen i rai Canolfannau barhau i gefnogi ymgeiswyr o ran canolbwyntio'n agos ar y berfau gorchymyn allweddol yn yr asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd nifer o ymatebion yn dibynnu ar fformatau tabl, a arweiniodd weithiau at bwyntiau disgrifiadol byr a oedd yn cyfyngu ar gyfle'r ymgeiswyr i roi'r dyfnder, y dadansoddi a'r gwerthuso sydd eu hangen i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Yng nghwestiwn 2a, roedd lleiafrif o ymgeiswyr o hyd a ganolbwyntiodd yn bennaf ar y ddeddfwriaeth, gyda llai o ystyriaeth i godau ymarfer neu godau ymddygiad. Cyfyngodd hyn ar fynediad at y bandiau marciau uwch ar gyfer y cwestiwn hwn. Er bod hyn wedi gwella o'i gymharu â chyfresi blaenorol, mae'n dal i fod yn faes i Ganolfannau ei ystyried, gan sicrhau bod cyfle gan ymgeiswyr i gael mynediad at yr ystod lawn o farciau sydd ar gael.

Gan fod mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei ganiatáu ar gyfer Tasg 2, dylai Canolfannau sicrhau hefyd bod ymgeiswyr yn cydnabod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd i gefnogi eu gwaith. Dylai defnydd effeithiol o ymchwil gyfoethogi ymateb yr ymgeiswyr a dylai gael ei gymhwyso'n benodol at yr unigolyn a ddewiswyd yn hytrach na chael ei gynnwys fel gwybodaeth gyffredinol.

Gwelwyd amrywiaeth o arddulliau a dulliau marcio ar draws Canolfannau. Roedd llawer o enghreifftiau o arfer da lle roedd Canolfannau wedi anodi gwaith ymgeiswyr yn effeithiol gan ddangos lle roedd meini prawf asesu wedi cael eu bodloni a rhoi cyfiawnhad eglur am y band marciau a ddyfarnwyd. Hefyd, roedd enghreifftiau o brosesau cymedroli mewnol effeithiol ac mae cyflwyno tystiolaeth o'r broses hon ynghyd â deunyddiau asesu'n dal i gael ei ystyried yn arfer da.

Uwchlwythodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau eu gwaith erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno ac uwchlwythodd pob un y ddogfennaeth ofynnol ar fformat hygyrch. Roedd hyn yn cynnwys datganiadau dysgwyr wedi'u cwblhau, dogfennau asesu, gwaith ymgeiswyr a'r dystiolaeth ategol ofynnol ar gyfer cymedroli. Atgoffir canolfannau fod rhaid sicrhau bod pob dogfennaeth ofynnol wedi'i chynnwys ar IAMIS adeg y cyflwyno er mwyn cefnogi'r broses gymedroli.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1(a)

Ar y cyfan, perfformiodd ymgeiswyr yn dda ar y cwestiwn hwn a dangos dealltwriaeth dda o'r ffactorau a wnaeth gyfrannu at risg yr unigolyn a ddewiswyd. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth yn effeithiol at yr astudiaeth achos a rhoi esboniadau clir o amrywiaeth o ffactorau perthnasol. Esboniodd yr ymatebion cryfaf yn eglur sut roedd pob ffactor yn cyfrannu at y risg a chysylltu hyn yn benodol â'r unigolyn a ddewiswyd. Roedd yr ymatebion yn y bandiau marciau is yn tueddu i nodi neu ddisgrifio ffactorau heb ddatblygu'r esboniad yn llawn. Atgoffir canolfannau fod y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ffactorau o orffennol yr unigolyn a dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu hymatebion wedi'u cysylltu'n eglur â phrofiadau neu amgylchiadau blaenorol.

Cw.1(b)

Ymatebodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn ac roedden nhw'n gallu amlinellu'n glir y risgiau presennol a oedd yn effeithio ar yr unigolyn a ddewiswyd. Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr eu bod yn gallu cymhwyso gwybodaeth yn dda ac yn gallu gwneud cysylltiadau eglur rhwng y risgiau a nodwyd a'r effaith ar yr unigolyn. Lle roedd ymgeiswyr yn llai llwyddiannus, weithiau roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o risgiau, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Dangosodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch amrywiaeth ehangach o wybodaeth a dealltwriaeth gywir.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cw.1(c)

Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar hawliau defnyddwyr gwasanaeth. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cymhwyso hyn yn effeithiol at yr unigolyn a ddewiswyd ac esbonio sut roedd y ffactorau hyn yn dylanwadu ar eu hawliau. Canolbwyntiodd lleiafrif o'r ymgeiswyr yn fwy ar ddisgrifio'r hawliau a ddylai fod gan unigolyn yn hytrach na'r ffactorau sy'n effeithio ar yr hawliau hyn. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin â chanolbwynt y cwestiwn ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn benodol at yr unigolyn a ddewiswyd.

Cw.1(ch)

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion cryfach yn gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol drwy esbonio ffactorau a chysylltu'r rhain yn eglur â'r unigolyn yn yr astudiaeth achos. Lle roedd ymgeiswyr yn llai llwyddiannus, roedden nhw'n aml yn dangos gwybodaeth o'r pwnc ond doedden nhw ddim yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn llawn at yr unigolyn a ddewiswyd. Gan fod y cwestiwn hwn yn asesu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu hymatebion yn dal i ganolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'u bod yn rhoi trafodaeth gyffredinol.

Cw.1(d)

Gwelwyd llawer o ymatebion da ar gyfer y cwestiwn hwn, gyda'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o sut gall gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal hybu cynhwysiant. Nododd ymatebion cryfach weithwyr proffesiynol penodol perthnasol i'r unigolyn ac esbonio'r rôl y gallen nhw ei chwarae wrth gefnogi ei anghenion. Yn aml, roedd yr ymatebion yn y bandiau marciau is yn fwy cyffredinol ac yn cyfeirio'n fras at "weithwyr iechyd proffesiynol" neu "weithwyr cymorth" heb drafod rolau penodol. Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn nodi gweithwyr proffesiynol perthnasol ac yn esbonio'n eglur sut mae eu camau gweithredu'n hybu cynhwysiant i'r unigolyn a ddewiswyd.

Tasg 2

Cw.2(a)

Gwelwyd rhai ymatebion cryf i'r cwestiwn hwn, gydag ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, codau ymarfer a chodau ymddygiad perthnasol. Roedd yr ymatebion cryfaf yn gallu esbonio'r rhain yn eglur a'u cysylltu'n effeithiol â'r unigolyn a ddewiswyd. Mae gwelliant wedi bod o'i gymharu â chyfresi blaenorol; fodd bynnag, canolbwyntiodd lleiafrif o ymgeiswyr o hyd ar y ddeddfwriaeth yn bennaf a wnaethon nhw ddim cynnwys digon o drafodaeth ar godau ymarfer neu godau ymddygiad. Atgoffir canolfannau fod angen i ymgeiswyr ymdrin â'r ddau faes i gyrraedd yr ystod lawn o fandiau marciau.

Cw.2(b)

Roedd enghreifftiau o ymatebion manwl lle roedd ymgeiswyr yn gallu asesu arferion iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol ac esbonio sut gallai'r rhain ddiogelu'r unigolyn a ddewiswyd. Roedd yr ymatebion cryfaf yn dangos dealltwriaeth glir o'r arferion ac yn ystyried eu heffeithiolrwydd. Roedd y cwestiwn hwn yn fwy heriol i rai ymgeiswyr, yn enwedig mewn perthynas ag ymdrin â'r ferf gorchymyn. Disgrifiodd rhai ymatebion arferion yn hytrach nag asesu eu heffeithiolrwydd, gan gyfyngu ar y gallu i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Cyflwynodd nifer o ymgeiswyr wybodaeth mewn tablau, a oedd weithiau'n cyfyngu ar y cyfle i ddatblygu ymatebion yn llawn. Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ystyried dyfnder yr esboniad sydd ei angen a sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â gofynion y gair gorchymyn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Crynodeb

Ar y cyfan, roedd hon yn gyfres gadarnhaol lle dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth eglur ar draws yr uned. Yn gyffredinol, Tasg 1 oedd y gryfaf o'r ddwy dasg, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn cymhwyso eu gwybodaeth yn effeithiol at yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Dangosodd Tasg 2 amrywiaeth o ddulliau, ac roedd llawer o enghreifftiau o ymatebion llwyddiannus yn defnyddio sleidiau a dogfennau Word.

Diolch i'r canolfannau am barhau i ymgysylltu â'r Asesiad Di-arholiad ac am gefnogi'r ymgeiswyr wrth iddyn nhw gynhyrchu gwaith o safon dda.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylai canolfannau barhau i roi anodiadau eglur i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd, gan amlygu lle mae'r meini prawf asesu wedi'u bodloni er mwyn cefnogi'r broses gymedroli.
- Dylai canolfannau sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ofynnol yn cael ei huwchlwytho i IAMIS, gan gynnwys y nodiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer Tasg 1, datganiadau dysgwyr a thaflenni amser.
- Yng nghwestiwn 1a, dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar ffactorau o'r gorffennol a gyfrannodd at risg, tra dylai cwestiwn 1b ganolbwyntio ar y risgiau presennol.
- Yng nghwestiwn 1d, dylai ymgeiswyr nodi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal penodol ac esbonio eu rôl wrth hybu cynhwysiant.
- Yng nghwestiwn 2a, dylai ymgeiswyr gynnwys y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer/codau ymddygiad hefyd er mwyn gallu cyrraedd ystod lawn y bandiau marciau.
- Yn Nhasg 2, dylai ymgeiswyr ganolbwyntio'n ofalus ar y berfau gorchmynnol a sicrhau bod ymatebion wedi'u datblygu'n llawn yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth gryno wedi'i chyflwyno mewn tablau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 6: GWEITHIO YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Trosolwg o'r Uned

Dilynodd mwyafrif y canolfannau ofynion gorfodol arweiniad sector iechyd a gofal cymdeithasol CBAC. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r sector (100 awr) i gwblhau'r asesiad dan reolaeth yn llwyddiannus. Roedd rhai canolfannau yn annog eu dysgwyr i ymgymryd â dau leoliad profiad gwaith, a oedd yn arfer da. Cafodd ymgeiswyr amrediad o brofiadau perthnasol yn ymgysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol.

Cymerodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ran mewn lleoliadau/gwasanaethau lleoliad gwaith priodol, megis cartrefi gofal preswyl, gwasanaethau gofal dydd i oedolion, wardiau ysbyty a gwasanaethau gofal cartref. Fodd bynnag, cafodd rhai ymgeiswyr eu gosod o hyd mewn adrannau anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion, colegau a meithrinfeydd prif ffrwd. Nid yw'r rhain yn lleoliadau derbyniol ar gyfer y rhaglen hon. Mae manyleb y cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol hwn yn amlinellu'r lleoliadau/gwasanaethau priodol yng nghanllawiau CBAC ar gyfer yr uned hon. Mae rolau rheng flaen a swyddogaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedi'u nodi yn adran 6.1 y fanyleb, nad ydynt yn cynnwys Penaethiaid, athrawon na chynorthwywyr addysgu.

Fodd bynnag, os yw ymgeiswyr wedi'u gosod mewn lleoliadau addysgol, dylen nhw ddewis rolau iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiol fel nyrs ysgol neu seicolegydd addysg. Mae'n rhaid i'r asesu ddilyn y cynllun marcio, felly bydd y marciau a roddir i ymgeiswyr sy'n disgrifio lleoliadau a rolau swyddi amhriodol wedi'u cyfyngu i'r band marciau isaf. Yn aml, nid oedd ymgeiswyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau/gwasanaethau anghywir yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf, gan nad oedden nhw'n gallu rhoi enghreifftiau priodol o iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hymatebion. Cyflwynodd rhai canolfannau drefn raddio anghywir wrth asesu gwaith ymgeiswyr oherwydd bod yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi'u gosod mewn lleoliadau/ gwasanaethau amhriodol wedi cael marciau rhy hael.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r canolfannau eu tystiolaeth o samplau dysgwyr erbyn terfyn amser CBAC, a chyflwynodd nifer o ganolfannau ar ddyddiad cynharach. Fodd bynnag, anfonodd ychydig o ganolfannau y dystiolaeth yn hwyr, ac anfonodd rhai canolfannau dystiolaeth anghyflawn. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ofynnol yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys y Dyddiadur Myfyriol, y Lleoliad(au) Gwaith/Cofnod Ymgysylltu â'r Sector (wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr ymgeisydd i gadarnhau ei fod wedi ymgymryd â 100 awr) a'r Daflen Farciau (wedi'i dilysu drwy lofnodion yr Athro a'r Ymgeisydd ac wedi'i dyddio). Nodwyd nifer bach o wallau gweinyddol, fel cyfansymiau anghywir ar y Daflen Farciau. Weithiau, roedd gwahaniaeth rhwng marc y Daflen Farciau, y marciau ar waith yr ymgeisydd a marc yr ymgeisydd a gyflwynwyd ar-lein.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu hadroddiadau Asesiad Di-arholiad (NEA) yn effeithiol, gan ddefnyddio fformat ysgrifenedig clir a threfnus, ac fel arfer roeddent yn mynd i'r afael â phob tasg mewn trefn resymegol gan ddefnyddio teitlau is-benawdau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Yn gyffredinol, rhoddodd yr Aseswyr adborth clir a manwl ar waith dysgwyr, a oedd yn cefnogi gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol, a'r broses gymedroli gyffredinol. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ganolfannau lle roedd mwy nag un asesydd wiriadau cymedroli mewnol i sicrhau ansawdd a sicrhau bod y marciau a ddyfarnwyd wedi cael eu safoni drwy'r Ganolfan gyfan. Os oes gan ganolfannau fwy nag un Asesydd, rhaid cynnal gwiriadau samplu sicrhau ansawdd mewnol er mwyn cadarnhau bod marciau wedi'u safoni drwy'r Ganolfan gyfan. Neu, gall canolfan sydd â nifer o aseswyr ddewis neilltuo aseswr at dasg benodol (dasgau penodol) fel bod safoni marciau wedi cael ei ddangos.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyson at eu lleoliad/gwasanaeth drwy gydol eu hadroddiad a rhoi enghreifftiau i gefnogi eu barn a'u casgliadau. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai tasgau ar fformat mwy cyffredinol, heb gyfeirio'n uniongyrchol at y lleoliad neu at y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd ymatebion cyffredinol yn aml yng ngwaith ymgeiswyr na wnaethon nhw leoliad priodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pryder nad oedd rhai ymgeiswyr wedi cynhyrchu eu gwaith yn annibynnol. Mae'r tîm cymedroli'n rhoi adroddiadau'r ymgeiswyr drwy wirwyr llên-ladrad/Deallusrwydd Artiffisial. Mae'r Corff Dyfarnu'n ymchwilio i bob achos sy'n cael ei amau o lên-ladrad/adroddiadau Deallusrwydd Artiffisial. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol y gallai ymgeiswyr fod yn anghymwys i ennill tystysgrif o'r rhaglen hon os yw llên-ladrad yn cael ei gadarnhau. Cyflwynodd rhai ymgeiswyr dystiolaeth a oedd wedi dod o ffynonellau eraill, ac roedd nifer o achosion o lên-ladrad nad oedd y Ganolfan wedi'u nodi. Gwnaeth ychydig o ymgeiswyr gopïo a gludo gwybodaeth a oedd yn dod o ffynhonnell, ond nad oedd wedi'i nodi'n ddyfyniad uniongyrchol o ffynhonnell eilaidd. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth o ffynonellau eilaidd, ond rhaid nodi'r ffynhonnell ac, os defnyddir yr un geiriad o'r ffynhonnell, rhaid iddo gael ei roi mewn dyfynodau. Pan oedd cymaint o wybodaeth yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, aeth yn anodd nodi pa waith ysgrifenedig a oedd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeisydd yn unig. Mae rhai canolfannau yn rhoi gwaith eu hymgeiswyr drwy 'wiriwr llên-ladrad', sy'n arfer da, i gefnogi prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Mae'n rhaid i aseswyr ac ymgeiswyr lofnodi Datganiad y Daflen Farciau i gadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, mai'r ymgeisydd yn unig sydd wedi cynhyrchu'r gwaith a gyflwynwyd.

Dylai canolfannau atgoffa eu hymgeiswyr hefyd i anonymeiddio enwau lleoliadau/gwasanaethau ac aelodau o staff er mwyn sicrhau bod gofynion cyfrinachedd yn cael eu cadw. Mae angen i ganolfannau atgoffa eu hymgeiswyr i gyfeirio at ddeddfwriaeth, cyrff cofrestru a chyrff archwilio Cymru.

Pan mae ymgeiswyr yn gwneud ymchwil eilaidd, maen nhw'n aml yn dod o hyd i gyfeiriadau at gyrff neu ddeddfwriaeth Lloegr, fel Deddf Gofal 2014 (Care Act 2014), nad yw'n berthnasol i Gymru.

Sylwadau ar gwestiynau unigol

A(i)

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr amlinellu prif bwrpas y lleoliad/gwasanaeth a ddewiswyd a rôl y cyflogwr i hyrwyddo a diogelu hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. Cafwyd atebion da i'r dasg hon ar y cyfan. Collwyd marciau posibl lle nad oedd ymgeiswyr wedi amlinellu rôl y cyflogwr, neu lle nad oeddent wedi cyfeirio'n briodol at y sector/lleoliad. Gallai ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthwahaniaethu, amrywiol bolisïau iechyd a diogelwch, y diwylliant sefydliadol, a'r gweithdrefnau diogelu data a chyfrinachedd ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau. Cyrhaeddodd ymgeiswyr y bandiau marciau uchaf drwy wneud cysylltiadau effeithiol â'u lleoliad.

© WJEC CBAC Ltd.2026

A(ii)

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr amlinellu dwy rôl swydd o fewn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd yn uniongyrchol fel rhan o ymgysylltu â'r sector neu mewn cysylltiad â'r lleoliad/gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys:

- prif bwrpas y rôl
- y sgiliau penodol sydd eu hangen
- gofynion o ran cymwysterau
- rheoleiddio proffesiynol fel y bo'n briodol i'r rôl

Amlinellodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddwy rôl swydd briodol o'u lleoliad, ac roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi cael profiad yn y lleoliad/gwasanaeth a argymhellwyd gan CBAC yn tueddu i ennill marciau mewn bandiau uwch. Nododd yr ymgeiswyr sgiliau penodol a oedd eu hangen a gofynion o ran cymwysterau, ond cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn fwy cyffredinol at y DU yn hytrach nag at ofynion hyfforddiant penodol i Gymru.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi cyfweld â staff yn eu lleoliad ac wedi ymchwilio i'r gofynion rheoleiddio a chymhwyso perthnasol, a hynny'n cyfoethogi eu hymatebion. Fodd bynnag, dewisodd lleiafrif o ymgeiswyr rolau swyddi tebyg iawn. Cyfyngodd hyn ar gwmpas eu hymateb a'i gwneud yn fwy heriol iddyn nhw ddangos gwahaniaethau allweddol o ran disgwyliadau rheoleiddio, cymwysterau a dyletswyddau. Gall annog dewis ehangach o rolau cyferbyniol, ond priodol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi perfformiad cryfach gan garfannau'r dyfodol. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr a oedd mewn lleoliadau amhriodol mewn lleoliadau addysg at Estyn, nad oedd modd rhoi marciau amdano yn eu cyd-destun lleoliad prif ffrwd.

A(iii)

Cyrhaeddodd yr ymgeiswyr a gyfeiriodd at ddeddfwriaeth ac arferion rheoleiddio penodol i Gymru a amlinellir yn y fanyleb y bandiau marciau uwch. Collodd ymgeiswyr farciau drwy beidio â chysylltu deddfwriaeth ac arferion Cymru â'u sector/lleoliad. Dylid cyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac arferion fel y Cynnig Rhagweithiol, yn hytrach na deddfwriaeth gyffredinol fel y Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfeiriodd nifer o ymgeiswyr at leoliadau/gwasanaethau addysgol yng nghyd-destun deddfwriaeth ac ymarfer rheoleiddio. Ni chyfeiriodd nifer o ymgeiswyr at reoleiddio proffesiynol, neu roedden nhw wedi ymchwilio i enghreifftiau o Loegr a chyflwynon nhw'r rhain, yn hytrach na gofynion yng Nghymru fel AGC (ar gyfer gwasanaethau gofal) a'r AGIC (ar gyfer y gwasanaethau iechyd).

Fodd bynnag, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ddadansoddi rheoliadau, fframweithiau a deddfwriaeth benodol i Gymru, ac i gymhwyso'r wybodaeth hon yn benodol at eu lleoliad/gwasanaeth, a oedd yn welliant o'i gymharu â charfan y llynedd.

Cafodd yr ymgeiswyr na wnaethon nhw ymdrin â phob agwedd ar y dasg a oedd yn gofyn am gyfeirio at ddeddfwriaeth, rheoleiddio a fframweithiau, eu cyfyngu i'r bandiau marciau is.

© WJEC CBAC Ltd.2026

B

Darparodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr archwiliad manwl a chlir o dri arfer a ddewiswyd i ddangos cyfathrebu, cydgynhyrchu, cydweithio, gwaith tîm a/neu broffesiynoldeb effeithiol, gan gyfeirio at y lleoliad/sector a ddewiswyd. Yn gyffredinol, esboniwyd yr enghreifftiau hyn yn dda, gan ddangos sgiliau archwilio manwl ar gyfer amcan asesu AA3. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai ymgeiswyr gyfeiriadau penodol at leoliad/gwasanaeth eu profiad gwaith ac nid oeddent yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch.

C(i)

Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr esbonio sut mae llwyddo i ddiogelu mewn lleoliad/gwasanaeth i sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu'n gryfder allweddol ar draws cyflwyniadau'r ymgeiswyr. Roedden nhw'n dangos dealltwriaeth gadarn o egwyddorion diogelu ac yn gallu adfyfyrio'n effeithiol ar arferion diogelu a arsylwyd neu a weithredwyd yn eu lleoliad/gwasanaeth.

Fodd bynnag, cyflwynodd ambell ymgeisydd wybodaeth a oedd fel petai wedi cael ei chodi'n uniongyrchol o ffynonellau eilaidd a heb ei dyfynnu neu ei chydnabod.

C(ii)

Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr amlinellu'r canlyniadau posibl os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad/gwasanaeth.

Dangosodd ymgeiswyr ymwybyddiaeth eglur o'r canlyniadau posibl os nad yw polisïau diogelu'n cael eu dilyn yn y sector. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r goblygiadau difrifol i unigolion ac i gyrff. Cysylltodd y dystiolaeth a roddodd rhai ymgeiswyr y canlyniadau hyn yn effeithiol â natur agored i niwed yr unigolion penodol yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw yn eu lleoliad/gwasanaeth. Roedd y gallu i wneud cysylltiadau mewn cyd-destun yn dangos dull aeddfed ac adfyfyriol o ymdrin â diogelu ac yn cryfhau ansawdd y cyflwyniad.

Fodd bynnag, cyflwynodd ychydig o ymgeiswyr adroddiadau a oedd yn ymddangos iddyn nhw gael eu codi'n uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, heb gyfeirio at leoliad/gwasanaeth y lleoliad gwaith.

C(iii)

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ystyried sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru wedi dylanwadu ar arferion yn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn:

- gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- llywio polisi ac ymarfer i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r unigolion sy'n cael y gofal.

© WJEC CBAC Ltd.2026

I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr ddarparu enghreifftiau o'u lleoliad i ategu eu gwybodaeth ddiogelu. Mewn rhai achosion, ni roddwyd sylw i gydrannau hanfodol diogelu. Gallai atebion fod wedi cyfeirio at sicrhau bod diogelu wrth wraidd ymarfer y lleoliad/gwasanaeth, gan gyfeirio at hyfforddiant sefydlu a pharhaus, cofnodion cywir wedi'u diweddaru, cymarebau diogel rhwng staff a defnyddwyr gwasanaeth, defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac annog adborth adolygu rheolaidd i wneud y system gwynion yn fwy effeithiol.

CH

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddadansoddi sut cydymffurfir â chodau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut cânt eu cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'u hymgysylltu â'r sector. Roedd perfformiad ymgeiswyr oedd wedi cwblhau'r lleoliadau a argymhellwyd gan CBAC o ran y codau ymddygiad yn well ac roeddent yn gallu dadansoddi sut roedd y rhain yn cael eu dilyn yn y sector a ddewiswyd ganddynt. Gallai ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at sut mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu i bob aelod o staff; cynnig hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth, prosesau rheoli perfformiad sicrhau ansawdd a darparu gwasanaethau cwyno a chanmol. Unwaith eto, cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at arferion yn Lloegr/y DU ynghylch cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, a'r gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu a ddefnyddir i archwilio codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol. Roedd rhai ymgeiswyr yn disgrifio, yn hytrach na dadansoddi, y wybodaeth oedd ei hangen i fynd i'r afael â'r dasg hon.

Roedd yr ymgeiswyr a gyflawnodd yn y bandiau marciau uchaf yn gallu rhannu'r codau proffesiynol yn feysydd penodol a rhoddon nhw dystiolaeth eglur o sut roedd pob agwedd yn cael ei gweithredu yn lleoliad/gwasanaeth y lleoliad gwaith. Dangosodd hyn ddealltwriaeth gadarn o safonau proffesiynol a'r gallu i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol, gan gyfoethogi ansawdd a pherthnasedd cyffredinol eu hymatebion.

D

Roedd gofyn i ymgeiswyr egluro sut gellid defnyddio dulliau gwahanol yn y lleoliad/gwasanaeth i fodloni anghenion a gofynion unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau a oedd yn benodol ac, ar y cyfan, wedi'u hesbonio'n dda. Roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn esbonio'r gwahanol fathau o ddulliau a welwyd yn eu lleoliad yn cysylltu theori ag ymarfer yn effeithiol ac yn ennill y marciau uchaf. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi disgrifiadau arsylwadol, heb gyfeirio at theori ffurfiol ac yn tueddu i gael marciau is. Fodd bynnag, rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiadau clir a manwl, gan gyfeirio at ddulliau seiliedig ar weithgareddau, therapi ymddygiad gwybyddol, therapi ymddygiad a chymorth ymddygiadol cadarnhaol. Rhoddodd nifer o ymgeiswyr ddisgrifiadau mwy generig, a oedd yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, ac nad oeddent wedi'u seilio yng nghyd-destun eu lleoliad/gwasanaeth.

DD

Roedd gofyn i ymgeiswyr egluro sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y lleoliad/gwasanaeth. Roedd yr amcan asesu AA2 hwn yn gofyn am esboniad er mwyn cynnig cymhwysiad o wybodaeth a dealltwriaeth, yn hytrach na disgrifiad yn unig.

Helpodd y defnydd o arferion adfyfyriol y dysgwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac i fynegi eu profiadau'n fwy eglur ar gyfer y dasg hon. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr at ystod eang o arferion a ddefnyddir gan staff y lleoliad, bu hyn yn gymorth iddyn nhw gyflawni yn y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cyfeiriodd ymgeiswyr at fodloni anghenion unigol drwy bersonoli a hybu hunan-barch a grymuso. Gall gweithwyr gofal gynnal eu hymarfer, adeiladu a gwella arno a chyfrannu at eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Yn aml, cyfeiriwyd at sut mae'n bosibl annog staff i adfyfyrio yng nghyd-destun codau ymddygiad ac ymarfer, er mwyn cefnogi dysgu dyfnach am amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n cael eu profi yn y lleoliad/gwasanaeth.

DD(ii)

Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr egluro sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth, gan gyfeirio at ddamcaniaethwyr perthnasol. Enillodd ymgeiswyr farciau uwch drwy ddefnyddio eu dyddiaduron myfyriol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith damcaniaethwyr megis Kolb, Honey, a Mumford a Schon.

Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fanteision cofnod ysgrifenedig yn eu dyddiadur myfyriol, gan annog myfyrio personol a gwella ymarfer. Cyfeiriwyd rywfaint at werth gwaith cynllunio gweithredu 'unigol a mwy personol', cyfarfodydd tîm a rheoli perfformiad yn y lleoliad a ddewiswyd. Yn aml, roedd ymgeiswyr wedi arsylwi ar gyfarfodydd a thrafodaethau tîm rheolaidd i lywio'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, codi ymwybyddiaeth ohonynt a gwella eu heffeithiolrwydd. Dangosodd ychydig o ymgeiswyr ymwybyddiaeth o sut roedd yr arferion sicrhau ansawdd hyn yn gwella gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar foddhad swydd yn y lleoliad a ddewiswyd. Dadansoddodd nifer o ymgeiswyr ddamcaniaethau perthnasol a'u cymhwyso at eu profiadau yn y lleoliad, gan roi enghreifftiau penodol o sut roedd y damcaniaethau hyn yn cael eu defnyddio'n ymarferol.

Fodd bynnag, gwnaeth nifer sylweddol o ymgeiswyr ddisgrifio'r damcaniaethau priodol yn unig. Cyflwynon nhw adroddiadau hirfaith, nad oedden nhw'n ymddangos iddyn nhw gael eu cynhyrchu'n annibynnol gan yr ymgeisydd a chawson nhw eu nodi fel rhai 'wedi'u llên-ladrata'n helaeth' gan y gwiriwr llên-ladrad/Deallusrwydd Artiffisial.

Cyflwynodd rhai ymgeiswyr lyfryddiaethau cyffredinol manwl i ddangos tystiolaeth o'u hymchwil helaeth i ffynonellau eilaidd, sy'n arfer da. Gwnaeth ychydig o ymgeiswyr gynnwys cyfeirnodi mewn testun yn eu hadroddiadau, a chydnabod dyfyniadau uniongyrchol trwy ddefnyddio dyfynodau a nodi eu ffynonellau.

Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu allweddol:

- **Rhaid i ganolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn cael eu rhoi mewn lleoliadau / gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer eu lleoliad profiad gwaith**. Enw'r uned hon yw Gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Eleni, cafodd rhai ymgeiswyr o hyd eu rhoi mewn lleoliadau addysgol, fel adrannau anghenion ychwanegol o fewn ysgolion prif ffrwd neu golegau. Mae'r canllawiau ar gyfer uned 6 yn nodi'r lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol posibl sydd ar gael i fodloni gofynion lleoliad gwaith. Hefyd, noder nad yw lleoliadau mewn siopau elusen na chanolfannau chwaraeon yn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Rhaid i aseswyr ddilyn y cynllun marcio a pheidio â dyfarnu marciau yn y band marciau uchaf**
- **i ymgeiswyr sydd wedi cael eu gosod mewn lleoliadau neu wasanaethau amhriodol, nad ydyn nhw'n rhai iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Dylai aseswyr sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gyfarwydd â'r berfau gorchmynnol (cyfeiriwch at wefan CBAC am y manylion).** Yn aml, rhoddodd ymgeiswyr ddisgrifiad neu esboniad yn hytrach na'r drafodaeth sydd ei hangen ar gyfer Tasg Ch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- **Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ddogfennol ofynnol yn cael ei huwchlwytho a'i chyflwyno** i'w chymedroli erbyn y dyddiad cau, 5 Mehefin. Dylai'r cyflwyniad y gofynnir amdano at ddibenion samplu gan CBAC gynnwys:
  - **Gwaith Asesiad Di-arholiad yr Ymgeisydd** (wedi'i anodi gan yr Aseswr yn ddelfrydol, ac wedi'i gymedroli'n fewnol os oes dau aseswr neu ragor, er mwyn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol wedi cael eu cynnal i safoni marciau ar gyfer y garfan).
  - **Y Dyddiadur Myfyriol** (a ddylai gynnwys manylion am y lleoliad, a sylwadau myfyriol i gefnogi defnydd yr Ymgeisydd o enghreifftiau o'r lleoliad/gwasanaeth i ymdrin â thasgau'r asesiad di-arholiad).
  - **Y Cofnod Ymgysylltu â'r Sector** (i gynnwys y Datganiad gan yr Ymgeisydd bod o leiaf 100 awr, gan gynnwys bod cymryd rhan mewn 60 awr ar brofiad gwaith wedi digwydd).
  - **Taflen Farciau'r asesiad di-arholiad wedi'i llenwi** – mae wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr Athro a chan yr Ymgeisydd, i gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig ydyw ac nad oes llên-ladrad/Deallusrwydd Artiffisial wedi digwydd.
  - Nodiadau ychwanegol dewisol (hyd at 2 dudalen o A4 a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd sydd wedi'u gwirio am ddilysrwydd gan y Ganolfan).

- **Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am wirio nad yw eu hymgeiswyr wedi camymddwyn, trwy lên-ladrata gwybodaeth o ffynonellau eilaidd neu gyflwyno adroddiadau wedi'u cynhyrchu gan Ddeallusrwydd Artiffisial.** Mae nifer o becynnau meddalwedd ar gael i ysgolion a cholegau eu defnyddio wrth wneud gwiriadau llên-ladrad/Deallusrwydd Artiffisial.

Anogir canolfannau i wirio holl waith ymgeiswyr am lên-ladrad/Deallusrwydd Artiffisial cyn ei asesu.

- Dylai canolfannau godi ymwybyddiaeth yr ymgeiswyr ynghylch ateb y cwestiwn a osodwyd. Mae Cwestiwn C(iii) yn gofyn i ymgeiswyr ystyried sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru wedi dylanwadu ar arferion yn y lleoliad. Mae'n rhaid cynnwys pob un o'r tair agwedd, sef deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru er mwyn ennill marc yn y bandiau marciau uchaf. Hefyd, noder nad yw cyfeiriadau at ddeddfwriaeth gyffredinol y DU fel y Ddeddf Cydraddoldeb a rheoleiddwyr Lloegr fel y CQC yn ennill marciau.

- Dylai canolfannau annog eu hymgeiswyr i roi enghreifftiau penodol o'u lleoliad, bryd bynnag y bo'n bosibl yn eu hymatebion.

- Mae angen i ganolfannau atgoffa ymgeiswyr mai 5,000 o eiriau yw uchafswm y cyfrif geiriau ar gyfer yr asesiad hwn. **Cyflwynodd nifer sylweddol o ymgeiswyr adroddiadau a oedd ymhell dros 5,000 o eiriau.**

- **Dylai Aseswyr anodi gwaith Asesiad Di-arholiad ymgeiswyr, i gyfiawnhau ble, a pham dyfarnwyd marciau.** Dylai sylwadau ar y Daflen Farciau ar gyfer pob ymgeisydd hefyd ddarparu datganiadau crynodol, sy'n egluro sut cafodd marciau eu dyfarnu fesul tasg asesu.

- **Dylid annog ymgeiswyr i nodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddynt yn eu hadroddiadau ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad** ac i gyflwyno llyfryddiaethau cyffredinol, sy'n dangos tystiolaeth o'u hymchwil i ffynonellau eilaidd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

- **Dylai ymgeiswyr cyfrwng Saesneg fod yn ymwybodol o sillafiadau Saesneg UDA, er enghraifft 'center', organization', 'behavior' a 'prioritize' a'u hosgoi** yn eu hadroddiadau.

- Dylai canolfannau gyfeirio at yr **adnoddau a'r cyfleoedd hyfforddi**, sydd ar gael ar wefan CBAC, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd i gefnogi athrawon a'u hymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 7: ANATOMEG A FFISIOLEG

Trosolwg o'r Uned

Dyma bumed gyfres yr haf o'r uned Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn braf gweld lefel y manylder a roddwyd gan rai ymgeiswyr yn eu hatebion. Dewisodd rhai ymgeiswyr ateb ar y porth electronig a dewisodd llawer o rai eraill y fersiwn bapur. Yn y gyfres hon, roedd hi'n amlwg bod pob cwestiwn yn y papur yn hygyrch i'r ymgeiswyr a gadawyd llai o gwestiynau'n wag. Braf oedd nodi i bron i bob ymgeisydd roi cynnig ar y cwestiynau a'u bod yn gallu rhoi atebion estynedig yn y rhan fwyaf o'r achosion. Yn debyg i gyfresi blaenorol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r geiriau gorchymyn allweddol y gallent gael eu hasesu arnynt, er enghraifft, mewn cwestiynau AA2 a oedd yn defnyddio'r gair gorchymyn 'esboniwch', ni allai rhai ymgeiswyr roi rhesymau nac archwilio eu hateb yn fanwl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi copi o eiriau gorchymyn yr asesiad i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau allanol er mwyn iddynt allu paratoi'n llawn.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gryno yn y cwestiynau a oedd yn gofyn am atebion mwy llawn fel 'esboniwch' a 'disgrifiwch'. Dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu atebion llawn lle bo'r ferf orchmynnol yn gofyn am hynny. Lle roedd ymgeiswyr yn y bandiau marciau isaf, roedd hyn fel arfer o ganlyniad i gwestiynau ar y systemau nerfol a resbiradol. Hefyd, roedd llawer o ddysgwyr yn ansicr am rôl y system dargludo trydanol yn ogystal â rôl osmosis.

Mae'n bwysig i ganolfannau ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy. Os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i wneud y fersiwn sgrin.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Profwyd yr ymgeiswyr yn yr arholiad hwn ar draws pob un o'r tri amcan asesu, ac mae'r adroddiad
yn canolbwyntio ar y meysydd cynnwys o'r fanyleb.

7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd

Y cwestiynau'n ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 1,2,3.

Cafodd llawer o ymgeiswyr sgoriau uchel am y cwestiwn cyntaf ac roedden nhw'n gallu enwi amrywiaeth o gelloedd; os oedd ymgeiswyr wedi cyfeirio at gelloedd yn ôl eu mathau, e.e. celloedd gwyn y gwaed yn hytrach na lewcosytiaid, dyfarnodd y tîm arholi farciau. Enwodd lleiafrif o'r ymgeiswyr strwythurau celloedd yn anghywir, e.e. cnewyllyn, ac ni ddyfarnwyd marciau. Eleni, profwyd yr ymgeiswyr ar broses osmosis ac roedd gofyn i'r ymgeiswyr drafod rôl osmosis wrth gynnal iechyd da a llesiant yn y corff dynol. Ychydig iawn o ymgeiswyr a gyrhaeddodd y band marciau uchaf ar gyfer y cwestiwn hwn gyda'r ymgeiswyr yn bennaf yn rhoi trafodaethau sylfaenol i dda a oedd yn canolbwyntio ar symudiadau moleciwlau dŵr ac arwynebedd lledathraidd pilen. Ychydig iawn o ymgeiswyr a drafododd rôl osmosis mewn hydradu neu swyddogaeth yr arennau. Atebodd mwyafrif yr ymgeiswyr gwestiwn dau ar feinwe gyswllt yn dda, ac roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu esbonio amrediad o swyddogaethau gydag amrywiaeth eang o enghreifftiau o'u swyddogaethau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol

Y cwestiynau'n ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 4,5,6,10,11,9b

Mae llawer o atebion yr ymgeiswyr sy'n ymwneud â systemau ffisiolegol yn gwella. Mae'n braf nodi bod y canolfannau'n dod yn well am addysgu'r fanyleb yn nhermau adeiledd a swyddogaeth y system ffisiolegol.

Roedd dau gwestiwn am y systemau ffisiolegol yn y papur. Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn i ymgeiswyr esbonio swyddogaeth y system arennol. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu trafod rôl yr arennau a'r hyn y maen nhw'n ei wneud, yn bennaf o ran hidlo'r gwaed. Hefyd, roedden nhw'n gallu trafod rhai rolau eraill o ran y bledren a'r system rheoli gwastraff ehangach.

Aseswyr rôl cymalau yn y system sgerbydol yng nghwestiwn 5 a rhoddodd ymgeiswyr amrywiaeth o gymalau a swyddogaethau. Lle sgoriodd ymgeiswyr yn uwch, roedden nhw'n gallu trafod yn hyderus y ffordd y mae cymalau'n cefnogi rôl y system sgerbydol o ran darparu strwythur i'r system sgerbydol a galluogi'r corff i symud yn hyblyg.

Yn hanesyddol, nid yw ymgeiswyr wedi sgorio cystal o ran *cymhwyso*'r wybodaeth o'r system ffisiolegol ac yna manteision 7.3, ac yn y papur hwn, gofynnwyd iddyn nhw am fanteision gweithgarwch corfforol i'r system gyhyrsgerbydol. Rhoddwyd amrywiaeth o atebion gan yr ymgeiswyr o ran monitro gweithgarwch corfforol yn gysylltiedig â chryfhau'r cyhyrau a ffyrfder cyhyrau, gwella rheoli pwysau ac effaith lleihau pwysau ar y system gyhyrysgerbydol.

Roedd Cwestiwn 10 yn gofyn i'r ymgeiswyr nodi ac amlinellu pedair siambr y galon. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu enwi pedair siambr y galon, er enghraifft atria a fentriglau, ond doedd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'u swyddogaeth ddim cystal. Roedd ymgeiswyr yn gallu amlinellu rôl gwaed dadocsigenedig ac ocsigenedig ond doedden nhw ddim yn gallu rhoi rhagor o fanylion y tu hwnt i swyddogaethau syml. Doedd llawer o ymgeiswyr ddim yn gallu adnabod y siambrau. Arweiniodd hyn at system dargludiad trydanol y galon, ac eto, dangosodd yr ymgeiswyr amrywiaeth helaeth o atebion nad oedd modd rhoi marciau iddyn nhw, o gylchrediad y gwaed i swyddogaeth y rhydwelïau. Roedd y cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio system dargludiad trydanol y galon, yn benodol y nod sino-atrïaidd a'r nod atrio-fentriglol a sut mae hyn yn gweithio o ran ysgogiadau trydanol. Llwyddodd lleiafrif o ymgeiswyr i wneud hynny'n llwyddiannus.

Atebwyd rôl treulio'n dda iawn gan fwyafrif yr ymgeiswyr a allai ddisgrifio'n hyderus gamau treuliad yn ogystal â rôl yr organau sy'n ymwneud â'r system dreulio a dylai canolfannau gael eu canmol am addysgu'n ardderchog ar gyfer y cwestiwn hwn.

Hefyd, roedd ymgeiswyr yn hyderus i drafod effaith hydradu ar y system dreulio ac yn gallu amlinellu nifer o fanteision.

Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol

Y cwestiynau'n ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 6,7, 8, 9b, 10 Gweler uchod am sylwadau am yr adran hon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Sut mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Y cwestiynau'n ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 8a, 8b, 12,
Ar y cyfan, atebodd ymgeiswyr yn dda o ran yr adran hon ac roedden nhw'n gallu disgrifio pwysigrwydd monitro iechyd naill ai drwy'r dulliau y soniwyd amdanyn nhw yng nghwestiwn 8b neu drwy'r cwestiwn am sgrinio gwddf y groth (12). Roedden nhw'n gallu trafod sut roedd y ddau brawf yn lleihau straen ar y GIG ac yna ar y staff. Ar y cyfan, roedden nhw'n gallu nodi bod
y prawf yn dod o hyd i ganser gwddf y groth mewn menywod.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 8: CEFNOGI IECHYD A LLESIANT OEDOLION I GYFLAWNI CANLYNIADAU CADARNHAOL

Trosolwg o'r Uned

Dyma bedwaredd gyfres yr uned hon, a braf yw nodi bod canolfannau'n gwella o ran cyflwyno ac asesu'r uned.

- Gwelwyd cyfeiriadau cliriach at yr unigolyn dan sylw, ac mae pob canolfan, bron, yn gwneud cynnydd da wrth amlinellu dulliau.
- Mae angen i ganolfannau drafod cryfderau a gwendidau dulliau gweithredu wrth addysgu, fel bod ymgeiswyr yn barod am yr asesiad pan gaiff yr astudiaeth achos ei lansio.
- Atgoffir canolfannau fod nodiadau (6 ochr, 3 tudalen) a chofnodion yn rhan orfodol o'r uned hon ynghyd â datganiadau'r ymgeiswyr ac y dylen nhw gael eu huwchlwytho gyda'r gwaith.
- Mae cynllun marcio'r asesiad yn newid bob blwyddyn i adlewyrchu'r unigolyn dan sylw, a dylai canolfannau fod yn cyfeirio'n ofalus at y rhain yn nhaflenni datganiad yr ymgeiswyr er mwyn cyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1

(a)

Argymhellir ar gyfer Tasg 1 (a) fod yr esboniad am ddarpariaeth/cyflwyno'r ddarpariaeth yn cael ei gyfuno a bod sut gallai anghenion unigol gael eu hasesu, yn cael ei nodi ar wahân. Mae hyn yn helpu ymgeiswyr i strwythuro eu hateb yn well.

Braf oedd gweld ymgeiswyr yn ymwybodol o'r ddarpariaeth wahanol sydd ar gael yng Nghymru. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu nodi eu hateb yn briodol, er enghraifft, roedd yn braf gweld ymgeiswyr yn cyfuno eu hesboniadau am ddarpariaeth â chyflwyno'r ddarpariaeth.

Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu rhoi amrywiaeth o ddarpariaethau gwahanol a oedd yn dangos gafael fanwl a hyderus – gan gynnwys cyfeirio at ystod o ddarpariaeth statudol, darpariaeth annibynnol a darpariaeth trydydd sector. Hefyd, roedd yn galonogol gweld rhai ymgeiswyr yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau arferol a'r rhai nad ydynt yn arferol, ac ymyrraeth gynnar/gwasanaethau ataliol.

O ran yr asesiad ar gyfer Tasg 1, roedd yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn dangos rhywfaint o wybodaeth am y broses asesu, ond yr agwedd bwysig yma yw dangos y broses asesu anghenion mewn perthynas â'r unigolyn o dan sylw. Yr allwedd i'r adran hon yw 'sut' byddai asesiad anghenion yn cael ei gynnal yng Nghymru. Gallai ymgeiswyr a ddangosodd afael hyderus ddefnyddio termau penodol fel 'asesiadau cymesur' a 'dull sy'n seiliedig ar gryfderau'.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar y cyfan, roedd y canolfannau wedi asesu'n gywir ar gyfer yr adran hon o waith yr ymgeiswyr.

(b)

Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr yn ymwybodol o ystod eang o ddulliau iechyd gwahanol y gellir eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a lles yr unigolyn o dan sylw. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad o'r dulliau hyn a dim ond eu rhestru a wnaethant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ystyried sut gallai'r dull gweithredu hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn o dan sylw.

Mae'r dulliau sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb yno i gefnogi canolfannau wrth asesu gwaith ymgeiswyr, ond dylid tynnu sylw at y gair gorchymyn 'disgrifiwch' ar gyfer yr adran hon. Rhestrodd llawer o'r ymgeiswyr y dulliau ar ffurf pwyntiau bwled a wnaethon nhw ddim rhoi rhagor o ddisgrifiadau o'r dulliau gweithredu, neu ddigon ohonyn nhw. Does dim rheol ynghylch faint o ddulliau gweithredu y dylid eu disgrifio, fodd bynnag, mae angen ystod eang er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uchaf. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ystod eang o wahanol apiau y gellid eu defnyddio – mae hyn yn dderbyniol, ond dim ond fel un dull o dan gyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau torfol y byddai'n cael ei gyfrif.

Gwnaeth bron i bob canolfan asesiadau cywir ar waith yr ymgeiswyr yn yr adran hon.

(c)

Y llynedd, y cwestiwn hwn oedd y gwannaf o ran ymatebion. Braf oedd nodi eleni bod gwelliant amlwg wedi bod yn yr adran hon ar y cyfan. Mae'r gwahaniaethydd rhwng band dau a thri. Os nad yw ymgeiswyr wedi cyfeirio at y cryfderau *a'r* gwendidau, yna mae'r ateb wedi'i gyfyngu i fand marciau dau yn unig. Os oedd ymgeiswyr wedi cyfeirio at y cryfderau a'r gwendidau, byddai hyn yn eu galluogi i gyrraedd band marciau tri a thu hwnt.

Dull gwybyddol oedd y dull gwybyddol o dan sylw, a chafwyd cyfeirio manwl at ddamcaniaethau gwybyddol yn ogystal â dulliau therapi yn yr adran hon. Cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at y cynlluniau a amlinellwyd yn y cynllun marcio a thrafod manteision llawn sut byddai hyn yn helpu i gefnogi'r unigolyn dan sylw.

Roedd yr asesiadau'n gywir ar y cyfan ar gyfer yr adran hon, ond dylai canolfannau ystyried ac asesu'r adran hon yn ofalus gan fod rhai canolfannau'n rhy hael wrth farcio'r adran hon.

Tasg 2

Braf oedd gweld yr ymgeiswyr yn gallu dangos eu hateb drwy ddilyn briff yr aseiniad drwy gynhyrchu llyfryn gwybodaeth. Roedd hi'n braf gweld borderi, ffontiau gwahanol, a lliwiau. Dylid canmol canolfannau am yr ystod o sgiliau technolegol a gweledol a ddangosodd yr ymgeiswyr.

O ran y dasg ei hun, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu amlinellu ystod eang o strategaethau a dulliau a bod yn eglur o ran sut byddai'n cefnogi patrymau ymddygiad cadarnhaol a chyflawni nodau llesiant i'r unigolyn yn yr astudiaeth achos. Yr allwedd i'r bandiau uwch yw'r ffocws ar Anika.

Un ffordd ddefnyddiol i ymgeiswyr roi'r prif bwyntiau wrth amlinellu yw trwy:

- Rhoi'r dull neu'r strategaeth (gan sicrhau bod hyn yn briodol i Anika)
- Disgrifio hyn yn gryno a'r hyn y byddai Anika yn ei ddisgwyl

© WJEC CBAC Ltd.2026

- Sut byddai'r dull neu'r strategaeth hon yn helpu'n uniongyrchol gydag ymddygiad Anika ac yn cyflawni ei nodau llesiant.

Mae angen i ymgeiswyr gyfeirio at y rhain yn eu hamlinelliad er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch.

Mae angen i ganolfannau annog ymgeiswyr i ystyried effaith strategaethau fel yr amlinellir yn y cynllun marcio a sut gallai'r rhain gefnogi'r unigolyn o dan sylw. Nid yw'r wybodaeth yn y cynllun marcio ddim rhestr hollgynhwysfawr a dylid cyfeirio ati yn y llyfryn.

- https://www.dysguiechydagofal.cymru/cy/adnoddau/igcgp-geiriau-gorchymyn
- Canllaw addysgu Uned 8 https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/prehlnbq/l3-hsc-pc-ext-dip-unit-8-gft-w.pdf
- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/mixhilsg/l3-hsc-pc-ext-dip-unit-8-abridged-sams-w-051026.pdf

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Haf 2026

UNED 9: YMCHWILIO I FATERION CYFOES YM MAES IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Trosolwg o'r Uned

Roedd gwaith ymgeiswyr yn dilyn amcanion asesu'r corff dyfarnu, ac roedd tasgau'n gysylltiedig â'r amcanion hyn. Cofnodwyd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd yn dda trwy gyfeirnodau.

Dylai'r asesiad ddilyn strwythur yr asesiad (Tasg 1, Tasg 2, adrannau A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, a fyddai wedyn yn arwain at gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd.

Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Tasgau

Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu

Tasg 1

Gwelwyd gwaith asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

Dylid annog ymgeiswyr i fod yn fwy penodol wrth ddewis mater cyfoes ar gyfer eu hymchwiliad; byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle iddyn nhw gyrraedd y bandiau marciau uwch a bodloni'r meini prawf a osodwyd.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu amlinellu sut y byddent yn cynnal eu hymchwiliad i'r mater cyfoes. Gwelwyd gwybodaeth a sylw da o'r gwahanol agweddau ar eu rhesymeg.

Cwblhawyd y dasg yn fformat priodol adroddiad. Dewisodd mwyafrif yr ymgeiswyr faterion cyfoes priodol a oedd yn fodd iddynt fodloni'r amcanion asesu a chyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymchwilio i'r mater cyfoes cyn dechrau Tasg 2 er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i gyflawni'r amcanion asesu. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd y ffordd y cwmpaswyd yr amcanion asesu yn dda iawn gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Mae angen i rai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl feini prawf cyflawni a nodir yn y fanyleb (asesu) yn fanwl a gyda dyfnder ar gyfer y band marciau uwch. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Adnabod nodau ac amcanion
- Dangos gwybodaeth glir a manwl am gynnal ymchwiliad
- Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant
- Amlinellu terfynau amser
- Adnabod risgiau yn gywir a sut y cânt eu rheoli
- Mae amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio'n gywir
- Nodi ystyriaethau moesegol

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i chymhwyso'n briodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

Tasg 2

Cwblhawyd Tasg 2 yn fformat priodol adroddiad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, sy'n helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

Adran A

Gwelwyd gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae'r mater cyfoes yn effeithio ar iechyd a lles unigolion a'r gwasanaethau yng Nghymru.

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac yn cael ei chymhwyso'n briodol a chyfeiriwyd at y rhan fwyaf o'r ymchwil/adnoddau. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gan y cynnwys fwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Esboniad o'r mater cyfoes
- Effeithiau'r mater cyfoes ar iechyd a llesiant
- unigolion
- Effeithiau'r mater cyfoes ar y gwasanaethau iechyd a lles Yng Nghymru
- Dealltwriaeth o anghenion corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau bob dydd
- Rhoddir ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Adran B

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth am addasrwydd ymchwil gyhoeddedig i'r mater cyfoes a ddewiswyd, gan gynnwys y mathau o ymchwil a gyhoeddwyd, a dibynadwyedd, dilysrwydd a hygrededd yr ymchwil a'r sefydliadau a oedd yn ymwneud â'i chynhyrchu a'i chyhoeddi. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Gwerthusiad o ymchwil gyhoeddedig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes
- Gwaith ymchwil cynradd a/neu eilaidd
- Data ansoddol a/neu feintiol
- Y methodolegau ymchwil a ddefnyddir gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data
- Dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

Adran C

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth o ran dadansoddi ymchwil a data dethol, gan gynnwys patrymau a thueddiadau a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau. O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Dadansoddiad o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau rhagorol rhwng gwahanol ffynonellau
- Nodwyd unrhyw gyfyngiadau sydd i'r gwaith ymchwil
- Dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol
- Dealltwriaeth o unrhyw faterion moesegol perthnasol
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

Adran Ch

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae ymchwil i'r mater cyfoes o'u dewis yn cael ei defnyddio, neu wedi cael ei defnyddio, i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig, a/neu ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch.

- Esboniad o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol

© WJEC CBAC Ltd.2026

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisïau a strategaethau

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

Adran D

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda wrth wneud argymhellion ar ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud yn y dyfodol ac egluro pam y byddai ymchwil o'r fath yn fuddiol.

O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn dyfarnu marciau uwch. Mae'r cynllun marcio ar y band uchaf yn gofyn am:

"Gafael hyderus ar ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, ac mae'n gwneud argymhellion dilys a chyfiawn"

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn dyfarnu bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon ar dudalennau 61-64 y fanyleb.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y'i nodir yn y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran (a), (b), (c) ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno gwaith.

Nodyn atgoffa bod adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 265139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/lefel-3-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-egwyddorion-a-chyddestunau-asesu-am-y-tro-cyntaf-2024/?tab=1

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd. 2026